

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw a bydd i'w weld ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio gael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

23 Chwefror 2024

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD Y CYNGOR yn NEUADD CYNGOR CEREDIGION, PENMORFA, ABERAERON AC O BELL TRWY FIDEO-GYNHADLEDDA ar DDYDD IAU, 29 CHWEFROR 2024am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
3. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd
4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 (Tudalennau 3 - 8)
5. I ystyried adroddiad ar y cyd gan yr Arweinydd, yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Wasanaethau Ariannol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar Gyllideb 2024/25, gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli'r Trysorlys (Tudalennau 9 - 314)
6. I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ynghylch Gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25 (Tudalennau 315 - 326)
7. I ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR) 2024-25 (Tudalennau 327 - 348)

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor

Cofnodion Cyfarfod y CYNGOR
a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell
drwy fideo-gynadledda ddydd Mawrth, 23 Ionawr, 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Maldwyn Lewis (Cadeirydd), y Cynghorwyr Shelley Childs, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Hugh Hughes, Chris James, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall.

(2.00pm - 3.28pm)

Gweithdrefn

Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Maldwyn Lewis, bawb l'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Elaine Evans a Ceris Jones am nad oedd modd iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod;
 Ymddiheurodd Mr Barry Rees am nad oedd modd iddo fod yn bresennol yn y cyfarfod am ei fod ar ddyletswydd arall ar ran y Cyngor.

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Ni ddatgelwyd dim buddiannau.

3 Cyheoddiadau'r Cadeirydd

- a) Yr Athro Syr John Edmunds OBE ar gael ei urddo'n farchog gwryf am ei wasanaeth i faes epidemioleg;
- b) Shann Jones ar dderbyn MBE am ei gwasanaeth i elusennau ac arloesedd;
- c) Robin Varley ar dderbyn OBE am ei wasanaeth i griced yng Nghymru;
- d) Stevie Williams ar ennill cymal olaf y 'Tour Down Under' i sicrhau ei fod yn ennill y ras gyfan;
- e) Siwan Owen, Coleg Gelli Aur ar ennill disgybl LANTRA y flwyddyn;
- f) Llongyfarchiadau i'r holl fusnesau bach sydd wedi'u sefydlu yng Ngheredigion a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

4 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023 a Chyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023 PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd am 10.00yb ar 14 Rhagfyr 2023, a Chyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd am 2.00yp ar 14 Rhagfyr 2023, yn gywir.

Nid oedd dim mater yn codi.

5 I ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2024/25

Tudalen 4

Cyflwynodd y Cyngorydd Gareth Davies, Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a Chaffael, yr adroddiad gan nodi - yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 - fod rhwymedigaeth statudol i gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn yn flynyddol, hyd yn oed os na fu unrhyw newid i'r cynllun ers y flwyddyn flaenorol.

Ers diddymu Budd-dal y Dreth Gyngor ym mis Ebrill 2013, nododd fod y cyfrifoldeb o drefnu cymorth Treth y Cyngor i'r rhai ar incwm isel wedi'i drosglwyddo o'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i awdurdodau lleol a bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo dwy set o reoliadau sy'n rhagnodi prif nodweddion y cynllun sydd i'w mabwysiadu gan bob Cyngor yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn talu mwyafrif cost taliadau'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Gyngor ond mae dal yn ofyniad sylweddol i Gyngorau dalu cost taliadau sy'n fwy na chyfraniad Llywodraeth Cymru. Mae'r gost a amcangyfrifwyd ar gyfer 23/24 oddeutu £6.5m felly mae tua £1.3m o gostau nad ydynt yn cael eu cydnabod gan Lywodraeth Cymru yn y Setliad Cyllid i Lywodraeth Leol.

Yn dilyn pleidlais **PENDERFYNWYD** i:

1. Nodi gwneud Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2024;
2. Mabwysiadu darpariaethau'r Rheoliadau Gofyniad Rhagnodedig (2013) fel Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ar gyfer 2024/25, yn amodol ar y disgresiwn lleol y gall y Cyngor eu harfer fel y nodir isod:
 - (i) Parhau i gymhwyso diystyriaeth 100% y tu hwnt i'r £10 statudol ar gyfer Pensiwn Anabledd Rhyfel, Pensiwn Rhyfel Gwŷr Gweddw a Phensiwn Rhyfel Gwraig Weddw, ar gyfer pensiynwyr a'r rheiny sy'n hawlio tra'n oed gweithio.
 - (ii) Peidio â chynyddu'r cyfnodau talu estynedig ar gyfer pensiynwyr a hawlwy'r oedran gweithio o'r 4 wythnos safonol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rhagnodedig ar hyn o bryd.
 - (iii) Peidio â chynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio ar gyfer pensiynwyr a hawlwy'r oedran gweithio o'r 3 mis safonol a gynhwysir yn y Cynllun Rhagnodedig.

6 I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar Adolygiad o Ddosbarthiadau Etholiadol, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio 2023

Bu i'r Cyngorydd Bryan Davies, Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth, gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006, fel y'i diwygiwyd, wedi cyflwyno dyletswydd ar bob awdurdod lleol ym Mhrydain i adolygu eu dosbarthiadau etholiadau a'u manau pleidleisio o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Nododd fod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ar 5 Medi 2023 lle cytunwyd i gychwyn yr adolygiad gorfodol ar 2

Tudalen 5

Hydref 2023, gyda chyfnod yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 10 Tachwedd 2023.

Nododd fod adolygiad rhagarweiniol wedi'i gynnal o'r dosbarthiadau etholiadol, y manau pleidleisio a'r gorsafoedd pleidleisio presennol yn ardal Ceredigion gyda'r bwriad o brofi eu haddasrwydd, a nodi unrhyw ddewisiadau eraill posibl lle bernir eu bod yn addas. Wrth asesu'r trefniadau presennol, ystyriwyd lleoliad, maint, argaeledd a hygyrchedd y manau a'r gorsafoedd pleidleisio. Derbyniwyd 16 ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol a gellir eu gweld yn Atodiad A ynghyd â sylwadau a chynigion y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Nododd y Cynghorydd Bryan Davies fod ymateb hwyr wedi dod i law, ar ôl cyhoeddi'r agenda, oddi wrth Neuadd Bentref Llwyncelyn yn nodi y byddent yn fodlon darparu'r neuadd fel gorsaf bleidleisio yn unig ar ddiwrnod yr etholiad. Ar ôl ystyried yr ymateb hwyr hwn, ac os bydd yr argymhelliad diwygiedig yn cael ei gymeradwyo, cynigiodd fod yr argymhelliad i symud yr orsaf bleidleisio o Neuadd yr Eglwys yn Llanarth i'r Ysgubor ar Fferm Bargoed yn cael ei dynnu'n llwyr o'r argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad.

Eglurodd Eifion Evans, Prif Weithredwr a Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod Ffestri Capel Llwyncelyn wedi cael ei ystyried yn anaddas fel Gorsaf Bleidleisio, a bod Pwyllgor Neuadd y Pentref wedi mynnu parhau â gweithgareddau eraill yn y Neuadd ar ddiwrnod yr etholiad, ac nad oedd modd gwarantu defnydd ecsgliwsif o'r adeilad ar ddiwrnod yr etholiad. Dywedodd y Cynghorydd Marc Davies fod sicrwydd wedi'i anfon gan Bwyllgor Neuadd Bentref Llwyncelyn y byddai'r orsaf bleidleisio yn cael defnydd ecsgliwsif ac na fyddai gweithgareddau eraill yn cael eu cynnal yn y Neuadd yn ystod etholiadau. Cadarnhawyd hyn gan Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Democraataidd.

Holodd y Cynghorydd John Roberts a fyddai'r adeilad wrth ochr Ysgol Comins Coch ar gael, gan fod yr adeilad bellach ar gau. Cadarnhaodd Eifion Evans mai Cyngor Sir Ceredigion sy'n berchen ar yr adeilad ac felly ni fyddai'r cau yn effeithio arno.

Nododd y Cynghorydd Euros Davies ei fod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad ond nad oedd ef a'r Cyngor Cymuned wedi rhoi ymateb. Nododd fod pryderon wedi'u codi ynghylch trosglwyddo'r Orsaf Bleidleisio o Neuadd Eglwys Llanwnnen i Ysgol Cwrtnewydd, a allai gael effaith ar y nifer a bleidleisiai am fod pleidleiswyr Llanwnnen yn tueddu i gerdded i bleidleisio. Gofynnodd a fyddai modd ystyried 'Y Grannell' fel lleoliad amgen.

Eglurodd Eifion Evans nad oedd yr Orsaf Bleidleisio yn Neuadd Eglwys Llanwnnen yn foddhaol ac nad oedd yn bodloni gofynion Deddf Etholiadau 2022. Cynigir bod yr Orsaf Bleidleisio yn cael ei symud i Ysgol Cwrtnewydd oherwydd diffyg opsiynau yn Llanwnnen. Mae'r 'Grannell' yn dŷ tafarn ac felly mae'n annhebygol y byddai'r landlord yn fodlon cau'r dafarn am ddiwrnod cyfan er mwyn iddi gael ei defnyddio fel gorsaf bleidleisio, tra'n sicrhau uniondeb yr etholiad a chyfrinachedd y cyhoedd fydd yn pleidleisio, a hefyd sicrhau na fydd dim na neb yn tarfu arnynt.

Tudalen 6

Nododd y Cynghorydd Euros Davies fod Fferm Bargoed hefyd yn dŷ tafarn, serch hynny, esboniodd Eifion Evans fod Fferm Bargoed yn gallu darparu adeilad ar wahân i fod yn orsaf bleidleisio. Hefyd gofynnodd y Cynghorydd Euros Davies a yw hyn yn mynd yn groes i bolisi'r Cyngor o ran trafndiaeth ac Ôl Troed Carbon. Eglurodd Eifion Evans fod y broses Etholiadau ar wahân yn llwyr i ddyletswyddau'r Cyngor.

Nododd Eifion Evans fod ganddo fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) bwerau dirprwyedig i adolygu'r trefniadau ar unrhyw adeg, ac os bydd Neuadd Eglwys Llanwnnen yn derbyn cyllid grant i wella'r cyfleusterau gan ddod â nhw i safon sy'n dderbyniol o ran gofynion Deddf Etholiadau 2022, neu os caiff lleoliad addas arall ei nodi, y byddai'n ailedrych ar y penderfyniad hwn o fewn y cyfnod adolygu o bum mlynedd.

Gofynnodd y Cynghorydd Keith Henson beth fyddai'n digwydd pe na bai cyfleusterau megis yr Hen Ysgol yng Nghribyn (Canolfan Steffan) ar gael. Cadarnhawyd bod argymhelliaid i drosglwyddo'r Orsaf Bleidleisio i Felin-fach yn y tymor byr, ac y byddai'n dychwelyd i Ganolfan Steffan yng Nghribyn unwaith y byddai'r cyfleusterau yno yn cyrraedd y safon ac ar gael i'w defnyddio fel gorsaf bleidleisio.

Gofynnodd y Cynghorydd Eryl Evans a fyddai Ysgol y Dderi yn gorfod cau ar ddiwrnod yr etholiad, gan nodi y byddai hyn yn annheg ar y disgyblion. Cadarnhaodd Eifion Evans fod mynedfa ar wahân ar gyfer disgyblion Ysgol y Dderi, Llangybi, ac felly byddai'r ysgol yn aros ar agor ar ddiwrnod yr etholiad. Hefyd gofynnodd y Cynghorydd Eryl Evans ynghylch y trefniadau parcio i rieni sy'n gollwng ac yn casglu eu plant o'r ysgol. Cadarnhaodd Eifion Evans y byddai hyn yn fater i Gorff Llywodraethu'r Ysgol.

Gofynnodd y Cynghorydd Gareth Lloyd am i Aelodau unigol gael gwybod am unrhyw gynigion i newid y trefniadau presennol yn eu Ward, gan fod llawer ohonynt heb ymateb i'r ymgynghoriad.

Cafodd y newid arfaethedig parthed Neuadd Eglwys Llanarth ei dynnu'n ôl.

Yn dilyn y drafodaeth **PENDERFYNWYD** i:

- a) Nodi na wneir newidiadau i'r Dosbarthiadau Etholiadol;
- b) Gwneud y newidiadau canlynol i'r Mannau Pleidleisio a'r Gorsafoedd Pleidleisio:
 - Symud o Adeilad Byddin yr Iachawdwriaeth i Ganolfan Morlan, Aberystwyth;
 - Symud o Neuadd Eglwys Llanwnnen i Ysgol Cwrtnewydd;
 - Symud o Neuadd Gymunedol Betws Ifan i Festri Capel Beulah;
 - Symud o Festri Capel Bryngwyn i Festri Capel Beulah;
 - Symud o Landygwydd i Festri Capel Beulah;
 - Symud o Neuadd Llangybi i'r Ganolfan Gymunedol yn Ysgol y Dderi;
 - Symud o Neuadd y Paith i Neuadd y Pentref, Llanfarian;
 - Symud o Festri Capel Llwyncelyn i Neuadd Bentref Llwyncelyn;
 - Symud o Ganolfan y Dyffryn i Neuadd Bentref Aberporth.

Tudalen 7

- c) Rhoi trefniadau wrth gefn ar waith ar gyfer y Gorsafoedd Pleidleisio canlynol:
- Tŷ'r Harbwr, Trefechan i ddefnyddio Clwb Pêl-droed Aberystwyth;
 - Canolfan Steffan, Cribyn i ddefnyddio Neuadd Goffa Felin-fach;
 - Neuadd Aberporth i ddefnyddio Canolfan y Dyffryn.

7

Aelodaeth y Cyngor a Pwyllgorau'r Cyngor

PENDERFYNWYD cadarnhau aelodau Pwyllgorau'r Cyngor fel y'u cyflwynwyd yn y cyfarfod.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Mawrth,
6 Chwefror 2024**

CADEIRYDD: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r:** Cyngor Llawn**Dyddiad y cyfarfod:** 29/02/24**Teitl:** Adroddiad ar y Cyd gan yr Arweinydd, Aelod y Cabinet - Cyllid a Chaffael, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar Gyllideb 2024/25 gan gynnwys y Strategaeth Gyfalaf, y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn wedi'i diweddarau a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys.**Pwrpas yr adroddiad:** Cymeradwyo Gofyniad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 24/25; pennu lefel Treth y Cyngor at ddibenion y Cyngor Sir ar gyfer 24/25; cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf, y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn a'r Dangosyddion Darbodus.**Er:** Penderfyniad**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**

Y Cyngorydd Bryan Davies Arweinydd y Cyngor

Y Cyngorydd Gareth Davies Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a Chaffael
Holl Aelodau'r Cabinet**1. Cefndir**

Ar 23/01/24 ystyriodd y Cabinet adroddiad ynglŷn â Gofyniad y Gyllideb Refeniw ddrafft ar gyfer 2024/25 a'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn wedi'i diweddarau, a gwnaeth argymhellion drafft ar lefel arfaethedig Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25 ynghyd â chynigion ar ddefnyddio arian Premiymau Treth y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu manylion llawn sefyllfa gyffredinol y Gyllideb ac roedd yn seiliedig ar setliad dros dro Llywodraeth Cymru ar Gyllid i Lywodraeth Leol. Mae'r adroddiad a'r penderfyniadau i'w gweld fan hyn:

[Agenda Cabinet Cyngor Sir Ceredigion ar ddydd Mawrth, 23ain Ionawr, 2024](#)

Wedyn cyfeiriodd y Cabinet yr adroddiad i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i gael eu barn nhw ar y Gyllideb. Ar 01/02/24 cafodd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflwyniadau gan yr Arweinydd, Aelod y Cabinet dros Gyllid a Chaffael a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ac yna ystyriodd yr adroddiad ynglŷn â Chyllideb ddrafft 24/25 ac argymhellion y Cabinet. Ar 08/02/24 a 09/02/24 cafodd y pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu thematig gyflwyniadau gan yr Arweinydd, Aelod y Cabinet dros Gyllid a Chaffael, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ac Aelodau Cabinet unigol ar gyfer y priod wasanaethau ac yna gwnaethant ystyried yr adroddiad ynglŷn â Chyllideb ddrafft 24/25 ac argymhellion y Cabinet.

2. Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn agored mai ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 24/25 yw'r "*un fwyaf cyfyng a phoenus ers datganoli*". Yn dilyn cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 07/02/24 mae Ceredigion dal ond yn derbyn cynnydd o 2.9% yn ei gyllid craidd (14eg o blith y 22 Awdurdod Lleol). Dyma felly yw Cyllideb fwyaf cyfyng Cyngor Sir Ceredigion hyd yn hyn ac mae'n waeth nag a ragwelwyd yn flaenorol.

Amcangyfrifir bod y pwysau o ran y costau refeniw y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn £18m, sy'n cyfateb i ffactor chwyddiant o 10% ar gyfer Ceredigion yn benodol. Mae hyn yn cymharu â'r sefyllfa lle y mae chwyddiant yn gyffredinol yn rhedeg ar 4% (ffigwr y CPI, Ionawr 2024). Felly mae angen gwneud yn iawn am ddiffyg o £14m yn y gyllideb drwy gyfuniad o Ostyngiadau yn y Gyllideb a chodi'r Dreth Gyngor.

Mae'r Cynghorwyr wedi gorfod wynebu dewisiadau Cyllidebol ofnadwy o anodd wrth bwysu a mesur sut a ble i leihau costau Gwasanaethau'r Cyngor, ar y cyd ag ystyried y lefel briodol o gyllid i'w chodi drwy Dreth y Cyngor. Nid yw mantoli'r Gyllideb wedi bod yn dasg bleserus. O ganlyniad, mae 70 o gynigion i leihau'r Gyllideb wedi'u cynnwys yn Atodiad 2, sydd oll yn angenrheidiol er mwyn llunio cyllideb gytbwys.

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithwyr yn bwysau cost sylweddol, sef cyfanswm o £6.1m. Mae hyn yn rhannol oherwydd y dyfarniadau cyflog cenedlaethol sydd bellach wedi'u cadarnhau ar gyfer 23/24, a oedd am yr ail flwyddyn yn olynol yn uwch na darpariaeth y Gyllideb sylfaenol. Nid yw'r broses genedlaethol o ddyfarnu cyflogau ar gyfer 24/25 wedi cychwyn eto, felly amcangyfrifwyd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, maent yn cael eu gyrru i raddau helaeth gan y codiad parhaus yn y Cyflog Byw Cenedlaethol gan Lywodraeth y DU (cynnydd o 9.7% i £11.44 yr awr o fis Ebrill 2024 ymlaen) ac ni roddir cyllid ychwanegol uniongyrchol ar ei gyfer. Mae disgwyl felly i'r dyfarniadau cyflog barhau i fod yn uchel ond yn is na'r hyn a welwyd yn 22/23 a 23/24.

Nid yw'r Cyngor yn pennu Dyfarniadau Cyflog cyflogeion ac nid yw'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch dyfarniadau cyflog ychwaith. Llywodraeth Cymru sy'n gwneud hyn mewn perthynas â Chyflogau Athrawon a chorff Cyflogwyr Llywodraeth Leol y DU sy'n gwneud hyn mewn perthynas â staff cyffredinol y Cyngor.

Mae'r galw a'r pwysau ar gyllidebau Gofal Cymdeithasol yn parhau i godi - cyfanswm o tua £8.6m ar ben dyfarniadau cyflog y gweithwyr. Mae £2.8m o hwn yn gysylltiedig ag ariannu codiadau chwyddiant ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd yn allanol (e.e. Gofal yn y Cartref, Taliadau Uniongyrchol a lleoliadau preswyl Pobl Hŷn). Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cofrestredig yng Ngheredigion yn derbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol (sydd wedi codi o £10.90 i £12.00 yr awr – cynnydd o 10.1%).

Tudalen 11

Ni fu'n bosib ariannu'n llawn yr holl bwysau costau a brofir gan Ysgolion ond darperir yng Nghyllideb 24/25 ar gyfer cynnydd cyfartalog o 3.1%. Cafodd Penaethiaid a Llywodraethwyr eu hysbysu ddiwedd mis Medi 2023 bod angen iddynt gynllunio gan dybio y byddent yn derbyn cynnydd ariannol o 3.1%, yn amodol ar newidiadau yn nifer y disgyblion yn yr ysgolion unigol. Mae'r ymrwymiad o 3.1% yn sefyll, serch y ffaith fod Setliad Llywodraeth Cymru ond yn gynnydd o 2.9%. Mae dal risg ynghylch y cynnydd yng nghyfradd Cyfraniadau Cyflogwyr ar gyfer Cynllun Pensiynau Athrawon, lle rhagdybir bod tua £1.4m o gyllid yn dod drwy gyllid grant penodol.

Am yr ail flwyddyn yn olynol cafwyd cynnydd sylweddol yn Ardoll Tân Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n rhan o gyllideb a phwysau costau Cyngor Sir Ceredigion. £584k yw'r cynnydd ar gyfer 24/25 – gyda'r Ardoll Tân yn cynyddu o £4.856m i £5.440m (12%). Ar ôl darparu ar gyfer cyllid tybiedig gan Lywodraeth Cymru tuag at gyfraniadau Cyflogwyr ar gyfer Cynllun Pensiynau'r Diffoddwyr Tân, mae'r pwysau costau yn lleihau o £584k i £497k sy'n dal i gyfateb i gynnydd o 1.10% yn Nhrefn y Cyngor.

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn ar 14/12/23 i gynyddu'r premiymau Treth y Cyngor y gellir eu codi ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor, mae'r Cabinet wedi treulio amser yn ystyried y ffordd orau o gynnig defnyddio'r budd ariannol a ddaw o hynny. Mae'r Cabinet yn ymwybodol fod angen cydbwysu'r awydd i glustnodi holl arian premiymau'r Dreth Gyngor ar un llaw, gyda sefyllfa ehangach y Gyllideb ar y llaw arall, a'r gallu i leihau baich Treth y Cyngor ar holl drigolion Ceredigion. Dyna pam y mae'r cynnig hwn gerbron y Cyngor Llawn i'w ystyried, sef cadw'r cynllun Tai Cymunedol gan ddefnyddio 25% o arian y Premiwm (ond gyda chap o £2m rhag i'r gronfa gronni'n ormodol) a bod y 75% sy'n weddill o arian y Premiwm yn cynorthwyo'r gyllideb gyffredinol.

Er yr heriau gweithredol o dro i dro mewn rhai Gwasanaethau, mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ddarparu gwasanaethau o safon wrth fodd y rheoleiddwyr allanol. Er enghraifft:

- Mewn cyfarfod diweddar ar sicrwydd ac asesu risg, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sylwi ar arweinyddiaeth gref a gwaith partneriaeth cryf ar draws Gofal Cymdeithasol. Roeddent yn falch o weld Gwasanaethau yn canolbwyntio ar lais y plentyn, yn cyflwyno asesiadau cymesur a'r ymrwymiad i gapasiti ychwanegol yn y timau Plant a Gofal a Gynllunnir. Hefyd, cyfeiriodd AGC at y nifer gymharol isel o Blant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion a dywedodd fod y gwasanaeth brysbennu i Blant yn gweithio'n dda ledled y model Llesiant Gydol Oed.
- Mae perfformiad ysgolion Ceredigion wedi parhau i gael canmoliaeth oddi wrth Estyn ac nid oes yr un ysgol mewn unrhyw fath o gategori dilynol. Eithriad yn hytrach na'r norm yw hyn ymhlith awdurdodau lleol eraill Cymru.
- Mae'r Cyngor wedi'i asesu gan Archwilio Cymru a barnwyd ei fod yn ariannol gadarn ond gan gydnabod yr heriau ariannol sylweddol sydd o'n blaenau ac sy'n risg fawr. Caiff y risg hon ei chydnabod yn ffurfiol yng Nghofrestr Risgiau'r Cyngor.

Tudalen 12

£1,908 yw Treth y Cyngor bresennol Band D yng Ngheredigion (i bob elfen) ar gyfer 23/24, sydd ychydig yn uwch na'r Dreth Gyngor gyfartalog ar gyfer Band D yng Nghymru, sef £1,879. Mae lefelau cyfartalog Treth y Cyngor yng Nghymru yn dal yn is na'r cyfartaledd cyfatebol yn Awdurdodau Unedol Lloegr (£2,139 ar gyfer 23/24). Mae elfen bresennol 2023/24 y Cyngor Sir o Dreth y Cyngor Band D yn werth £1,553.60.

Yn sgil y Gyllideb arfaethedig mae Gofyniad o £193.572m yng Nghyllideb 24/25. Ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor, byddai hyn yn arwain at gynnydd arfaethedig o 10.0% yn Nhreth y Cyngor at ddibenion y Cyngor Sir. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau ariannol sylweddol sy'n deillio o'r ardoll Tân a osodwyd gan Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, bydd angen ychwanegu cynnydd pellach o 1.1% ar Dreth y Cyngor er mwyn ariannu'r elfen hon yn llawn. O ganlyniad, cyfanswm y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor fydd 11.10%.

O ganlyniad i'r cynnydd arfaethedig cyffredinol yn Nhreth y Cyngor at ddibenion y Cyngor Sir (gan gynnwys yr ardoll Tân) bydd eiddo Band D yng Ngheredigion yn talu £1,726.05 – cynnydd o £172.45 o gymharu â £1,553.60 ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfateb i £14.37 y mis yn ychwanegol / £3.32 yr wythnos yn ychwanegol. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys praesept yr Heddlu na chwaith braesept y Cyngor Tref a Chymuned.

3. Cyllideb Refeniw

Ar 20/02/24, cafodd y Cabinet adborth ffurfiol yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac o ganlyniad penderfynodd y Cabinet:

1. *Nodi mai Ardoll Tân 24/25 cymeradwy Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion yw £5.440m, sef cynnydd o £584k (12%). Ar ôl darparu ar gyfer cyllid costau Pensiwn tybiedig gan Lywodraeth Cymru, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 1.1% yn Nhreth y Cyngor i drigolion Ceredigion.*
2. *Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r rhestr o Ffioedd a Chostau i fod yn effeithiol o 01/04/24 ymlaen fel yr amlinellir yn:*
 - a) *Atodiad 1*
 - b) *Atodiad 2*
 - c) *Atodiad 3*
 - d) *Atodiad 4*
3. *I argymhell i'r Cyngor Llawn, mewn perthynas â Phremiymau Treth y Cyngor o 01/04/24 ymlaen:*
 - a) *O 01/04/24, dylai 25% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net o ad-daliadau / costau Treth y Cyngor) gael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol, ar yr amod drwy'r amser na fydd cyfanswm y cyllid a ddelir yn y Cynllun Tai Cymunedol yn fwy na £2.0m ac y bydd unrhyw gyllid y tu hwnt i'r lefel hon mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi sefyllfa'r gyllideb gyffredinol.*
 - b) *O 01/04/24, bydd 75% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net o ad-daliadau / costau Treth y Cyngor) yn cael ei gadw a'i ddefnyddio i gefnogi sefyllfa'r gyllideb gyffredinol, er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion.*
4. *I argymhell i'r Cyngor Llawn, ar gyfer Cyllideb 24/25:*
 - a) *Gofyniad y Gyllideb ar gyfer 24/25 yw £193.572m, sy'n cynnwys yr holl gynigion ar gyfer Lleihau'r Gyllideb a amlinellir yn Atodiad 5, ond gan hepgor Eitem 63 ynghylch y Gwasanaeth Casglu Cynnyrch Hylendid.*
 - b) *Mae lefel Treth y Cyngor arfaethedig 24/25 at ddibenion y Cyngor Sir yn gynnydd o 11.10% (sef 1.1% mewn perthynas â chynnydd Ardoll yr Awdurdod Tân a 10.0% ar gyfer holl Wasanaethau'r Cyngor)*
 - c) *Byddai hyn yn cyfateb i gynnydd Band D o £172.45 (sef £14.37 y mis / £3.32 yr wythnos).*
5. *Cymeradwyo mai'r terfyn i'w gyflwyno ar gyfer gwastraff gweddilliol o 01/04/24 ymlaen fyddai 3 bag du (dim mwy na 60 litr yr un) fesul aelwyd breswyl fesul casgliad bob 3 wythnos..*

Gellir gweld yr adroddiad llawn a'r penderfyniadau yma:

[Agenda'r Cabinet ar ddydd Mawrth, 20fed o Chwefror, 2024](#)

Tudalen 14

Disgwylir i fanylion Setliad Cyllid Terfynol Llywodraeth Cymru i Lywodraeth Leol gael eu cyhoeddi ar 27/02/23 (ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi), yr un diwrnod ag y disgwylir i Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi. Yr unig newidiadau a ddisgwylir yw:

- £343k ychwanegol ar gyfer Ceredigion mewn perthynas â £14.4m o gyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru (rhan o gyllid canlyniadol o £25m y disgwylir iddo gael ei ddyrannu i Gymru);
- 4 grant penodol i'w trosglwyddo i'r Setliad Terfynol, cyfanswm o £2.228m:

	£'000
Menter Benthycia Llywodraeth Leol: Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron	1,944
Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydu Arfordirol	225
Claddu ac Amlosgi Plant	19
Fframwaith Perfformiad a Gwella Gofal Cymdeithasol	40
CYFANSWM	2,228

Mae'r eitemau hyn eisoes wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad o Ofynion Cyllidebol arfaethedig 24/25 a ddangosir yn Atodiad 1 – cyfanswm o £193.572m.

Fel rhan o argymhelliad 4a) y Cabinet, roedd hyn yn cynnwys rhestr o 70 o Gynigion i ostwng y Gyllideb gwerth cyfanswm o £5.819m. Roedd hyn yn cynnwys tair eitem ychwanegol (o gymharu ag adroddiad y Gyllideb ar 23/01/24) a oedd yn gyfanswm o £714k (Eitemau 68, 69 a 70) a gafodd eu hamlinellu yn adroddiad y Cabinet ar 20/02/24. Dangosir y rhestr hon yn ei chyfanrwydd yn Atodiad 2, sydd bellach yn hepgor Eitem 63 ynghylch y Gwasanaeth Casglu Cynnyrch Hylendid ac sydd â chyfanswm diweddaredig o £5.793m.


Dyma grynodedb o Gyllideb arfaethedig 24/25:

	£'000
<u>Adnoddau</u>	
Setliad Cyllid Allanol Cyfun LIC	133,058
Grantiau Penodol i'w trosglwyddo i'r Setliad Terfynol	2,228
Treth y Cyngor (11.10%)	58,286
Adnoddau ar gael	<u>193,572</u>
<u>Cyllideb</u>	
Cyllideb Sylfaenol a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol	180,101
Trosglwyddo grantiau'r Setliad Terfynol	2,228
Pwysau Costau'r Gyllideb	17,850
Cynigion ar gyfer Lleihau'r Gyllideb	(5,793)
Cyllideb Ddirprwyedig Ysgolion wedi'i chapio ar gynnydd o 3.1%	(1,539)
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor - cynnydd gofynnol	725
Gofyniad Arfaethedig Cyllideb 24/25	<u>193,572</u>

Tudalen 15

Felly mae'r gyfres o bapurau'r Gyllideb bellach wedi'u paratoi yn unol ag argymhellion y Cabinet. Mae'r Cyllidebau Rheoladwy sy'n deillio o'r rhain wedi'u diweddarau hefyd i adlewyrchu'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer dyraniadau/ ailgodi taliadau yn fewnol (e.e. Gwasanaethau Cymorth) a thaliadau Cyfalaf i gyrraedd y Cyllidebau Net. Felly mae manylion y Cyllidebau Rheoladwy a Net arfaethedig i'w gweld yn Atodiad 3.

Ar sail Cyllideb arfaethedig 24/25, gellir dangos cost reoladwy uniongyrchol Gwasanaethau'r Cyngor fel a ganlyn (ac eithrio ailddyrrannu Gwasanaethau Cymorth neu daliadau Cyfalaf megis Dibrisiant):



Fel y gwelir, bydd 75% o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gydol Oes, a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol. Ar ôl darparu ar gyfer costau sefydlog (ar y cyfan) eraill (sef Lwfansau'r Aelodau, Ardoll yr Awdurdod Tân, Costau Ariannu Cyfalaf a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor), mae hyn yn gadael dim ond 14% (£27.2m) ar gyfer holl Wasanaethau eraill y Cyngor.

Gwneir Addasiadau ar gyfer y rhain:

* yn cynnwys *Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir* (o'r Grŵp Arweiniol), Ffioedd Cyfreithiol (o Gyfreithiol a Llywodraethu) a Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (o Bobl a Threfniadaeth)

** yn cynnwys *PFI Penweddig* (o *Gyllid a Chaffael*)

4. Beth yn hollol y mae elfen y Cyngor Sir o Dreth y Cyngor yn talu amdano?

Mae Treth y Cyngor yn dreth gyffredinol sy'n seiliedig ar werth eiddo ac nid yw'n gweithredu ar sail Gwasanaeth talu a defnyddio. Bydd preswylwyr yn gweld ac yn defnyddio gwahanol wasanaethau'r Cyngor ar wahanol adegau yn eu bywydau:

- Bydd hyn yn dechrau gyda chofrestru genedigaeth ac yna'n symud ymlaen i gynnwys darparu a chludo i addysg Feithrin, Cynradd ac Uwchradd ac addysg Ôl-16 - boed hynny'n addysg chweched dosbarth neu'n hyfforddiant galwedigaethol. Darperir hefyd Wasanaethau Cerdd a Gwasanaethau Ieuencid.
- Fel oedolyn, gall hyn gynnwys defnyddio canolfannau Chwaraeon, defnyddio Llyfrgell, cerdded Ilwybr Arfordir Ceredigion (a hawliau tramwy cyhoeddus eraill), cofrestru i bleidleisio mewn Etholiad, cyflwyno cais Rheoliadau Cynllunio neu Adeiladu, bwyta mewn sefydliadau bwyd diogel a rheoledig, mynychu Amgueddfa neu Theatr y Cyngor, casglu eich sbwriel (ac yna ei waredu neu ei ailgylchu), defnyddio safle Gwastraff Cartref, gyrru ar Briffyrdd a Phontydd a gaiff eu cynnal a'u cadw (gan gynnwys graeanu'r ffyrdd dros y gaeaf), defnyddio gwasanaeth Bws cyhoeddus, goleuadau stryd ynghynn ar eich stryd a'r gallu i alw'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn argyfwng.
- Yn ddiweddarach, bydd preswlydd yn elwa o brisiau tocynnau teithio rhatach, ond yn y pen draw efallai y bydd angen mynediad at wasanaethau Gofal a Chymorth (gan ddefnyddio staff gofal cymdeithasol gwerthfawr sy'n derbyn cyflog sydd o leiaf yn Gyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru). Gall hyn gynnwys cefnogaeth a chyfarpar er mwyn gallu byw'n Annibynnol, gofal yn y cartref a lle mewn Cartref Gofal Preswyl. Gall hefyd gynnwys, yn y pen draw, Gwasanaeth y Crwner o bosib a chofrestru marwolaeth.

5. Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn

Ni newidiwyd y Strategaeth Gyfalaf (Atodiad 4) na'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn (Atodiad 5) a ystyriwyd gan y Cabinet ar 23/01/24 ac a oedd wedi'u cynnwys yn nogfen amgaeëdig G yng nghyfarfodydd cyllidebol y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

I grynhoi, y Rhaglen Gyfalaf ddiweddaedig a gynigir ar gyfer 23/24 yw £50.4m, a £59.1m ar gyfer 24/25. Cyfanswm y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng 23/24 a 26/27 yw £138m. Mae'r cyllid craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer 24/25 yn dod i gyfanswm o £5.854m.

Mae'r galwadau amrywiol ar y Rhaglen Gyfalaf yn teimlo'n waeth yn sgil y gostyngiad hirdymor yn y cyllid Cyfalaf craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae lefel bresennol y cyllid cyfalaf craidd (£5.8m) yn dal yn is na'r hyn a dderbyniwyd dros 15 mlynedd yn ôl ac mae'n cynrychioli toriad mewn termau real o £5.1m (neu bron i 50%) dros y cyfnod hwnnw.

Mae'n gwbl amlwg bod blwch sylweddol rhwng dyheadau'r Cyngor a'i allu i ariannu'r dyheadau hynny. Er enghraifft, ymhlith yr agweddau nad ydynt wedi'u cyfrifo'n llawn yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig y mae'r pwysau o ran Cynlluniau Rheoli Asedau'r Priffyrdd, yr Arolygon o Gyflwr Adeiladau, y gofynion o ran cerbydau newydd i'r fflyd (gan gynnwys buddsoddi mewn Sero Net), buddsoddi yn Ffermydd y Sir a gosod cyfarpar TGCh newydd yn yr ysgolion yn y dyfodol.

Bydd y gallu i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau mawr yn y dyfodol hefyd yn hynod o heriol. Yn y bôn, mae hyn yn golygu na fydd modd cynnal y lefel bresennol o asedau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt (boed hynny'n adeiladau, yn seilwaith neu'n fflyd gerbydau).

6. Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn sail i'r Dangosyddion Darbodus arfaethedig sydd wedi'u hatodi (Atodiad 6). Mae hefyd yn angenrheidiol bob blwyddyn i ddirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael i weithredu symudiad o fewn cyfanswm y terfyn Awdurdodedig ar gyfer benthyca allanol, a'r ffin Weithredol.

7. Barn y Swyddog Adran 151 (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael)

O dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Swyddog Adran 151 roi adroddiad yn ffurfiol i'r Cyngor fel rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb a hynny ynglŷn â chadernid yr amcangyfrifon a wnaed wrth gyfrifo, a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn arfaethedig.

O ystyried yr holl faterion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn a phroses gysylltiedig y Gyllideb, gallaf gadarnhau bod amcangyfrifon y Gyllideb arfaethedig wedi'u paratoi mewn ffordd gadarn.

Mae Cyllideb 24/25 yn amodol ar gyflawni 70 o gynigion i ostwng y Gyllideb sy'n dod i gyfanswm o £5.793m (sef 3.0% o Gyllideb arfaethedig 24/25 - £193.572m). Mae'r camau perthnasol i gefnogi hyn hefyd yn rhan allweddol o Gynlluniau Busnes y Gwasanaethau ar gyfer 24/25. Bydd y gwaith o gyflawni Arbedion Cyllidebol yn cael ei fonitro'n ddiwyd yn ystod y flwyddyn a hynny drwy'r trefniadau arferol ar gyfer rheoli ariannol a chynllunio busnes. Mae hyn yn cynnwys bod y cyllidebau diweddaraf yn ystod y flwyddyn yn cael eu diweddarau'n rheolaidd, cyflwyno adroddiadau Monitro Ariannol rheolaidd i'r Cabinet, ac adrodd ar eithriadau yn ôl yr angen.

Mae'r Grŵp Arweiniol i gyd a'u Rheolwyr Corfforaethol yn gwbl ymwybodol o'r her ariannol a bydd angen i Wasanaethau fod yn hyblyg wrth reoli'r Gyllideb yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, cymryd camau i liniaru, cywiro neu addasu yn ddigon cynnar yn y flwyddyn os bydd materion annisgwyl yn digwydd codi. Hefyd nid yw'r dyfarniadau cyflog wedi'u pennu eto ar gyfer 24/25 felly bydd yn rhaid i Wasanaethau, unwaith yn rhagor, berchnogi a rheoli'r risg yn y maes yma.

Mae datganiad o Gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a Balansau Cyffredinol y Cyngor ynghlwm ar ddiwedd Atodiad 2, a gallaf gadarnhau fod lefel amcangyfrifedig y Balansau Cyffredinol, sef £6.7m, yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf gan ddod o fewn y rhychwant o 3% i 5% a gynlluniwyd. Roedd y Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd wedi cyrraedd eu hanterth o £54m ar 31/03/22, wedi lleihau i £49m erbyn 31/03/23, a rhagwelir y byddant yn lleihau yn rhagor yn ystod y flwyddyn bresennol a'r un nesaf. Gwneir hyn mewn ffordd bwrpasol a rheoledig gan ddefnyddio Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi at ddibenion penodol yn unig, ac nid i gynnal y gyllideb sylfaenol. Er enghraifft, arian cyfatebol ar gyfer Cynlluniau Cyfalaf megis cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron ac ysgol newydd Dyffryn Aeron.

Mae'r rhagolygon cyllidebol y tu hwnt i 24/25 yn edrych yn heriol iawn os bydd Setliadau Cyllido Llywodraeth Leol yn cael eu cyfyngu i ddim mwy nag 1% o gynnydd y flwyddyn ac efallai'n is na hyn. Gyda'r Canghellor yn cyhoeddi Cyllideb y Gwanwyn ar 06/03/24, y bwriad yw diweddarau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn fanylach ar ôl hynny. Bydd hyn yn hwyluso dull mwy manwl, ystyriol a phenodol o weithio.

Fodd bynnag, ni ddylai'r Cyngor dwyllo'i hun – mae'r rhagolygon ariannol tymor canolig yn llwm tu hwnt. Mae mantoli cyllideb refeniw 24/25 wedi bod yn hynod heriol a bu ond yn bosib gwneud hynny drwy gynyddu Treth y Cyngor yn sylweddol.

Y rhagolygon tymor canolig ar hyn o bryd yw y gallai'r cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru gynyddu gan 1.0% ar y mwyaf, ond gallent fod yn setliadau gwastad neu hyd yn oed ostwng ychydig. Byddai senarios o'r math hyn yn golygu na fyddai modd parhau â'r dull presennol o osod y Gyllideb heb ailwerthuso pwrpas sylfaenol y Cyngor a'i berthynas gyda'i drigolion. Fel arall mae'n debygol y bydd angen codi Treth y Cyngor yn uwch eto yn y dyfodol.

Argymhellion:

1. Nodi, ym marn y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151):
 - bod amcangyfrifon y Gyllideb wedi'u paratoi mewn modd cadarn.
 - bod lefel arfaethedig y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a'r Balansau Cyffredinol yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.
2. Cymeradwyo'r canlynol parthed Premiymau Treth y Cyngor:
 - a) O 01/04/24 ymlaen, y dylai 25% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net o ad-daliadau / costau Treth y Cyngor) gael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol, ar yr amod drwy'r amser na fydd cyfanswm y cyllid a ddelir yn y Cynllun Tai Cymunedol yn fwy na £2.0m ac y bydd unrhyw gyllid y tu hwnt i'r lefel hon mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi sefyllfa'r gyllideb gyffredinol.
 - b) O 01/04/24 ymlaen, y bydd 75% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net o ad-daliadau / costau Treth y Cyngor) yn cael ei gadw a'i ddefnyddio i gefnogi sefyllfa'r gyllideb gyffredinol, er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion.
3. Cymeradwyo'r canlynol parthed y Gyllideb Refeniw:
 - a) Gofyniad y Gyllideb ar gyfer 24/25 yw £193.572m, fel y nodir yn Atodiad 1, sy'n cynnwys yr holl gynigion ar gyfer Lleihau'r Gyllideb a amlinellir yn Atodiad 2.
 - b) Cyllideb a Rhagolygon diwygiedig 24/25, fel yr amlinellir yn Atodiad 3.
4. Cymeradwyo'r canlynol parthed Dangosyddion Cyfalaf a Darbodus:
 - a) Y Strategaeth Gyfalaf, fel yr amlinellir yn Atodiad 4.
 - b) Y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn, fel yr amlinellir yn Atodiad 5.
 - c) Y Dangosyddion Darbodus, fel yr amlinellir yn Atodiad 6.
 - d) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael i weithredu symudiad o fewn cyfanswm y terfyn Awdurdodedig ar gyfer benthyca allanol, a'r ffin Weithredol.
5. Nodi parthed y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor:
 - a) Mai £5.440m yw'r ardoll y cymeradwyodd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, sef cynnydd o £584k (12%). Ar ôl darparu ar gyfer cyllid tybiedig gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau Pensiynau, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 1.1% yn Nhreth y Cyngor.
 - b) Bod y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau eraill y Cyngor (heb yr Ardoll Tân) yn cyfateb i 10.0%.
6. Pennu Treth y Cyngor Band D o £1,726.05 ar gyfer 2024/25 at ddibenion Cyngor Sir Ceredigion, sef cynnydd o £172.45 neu 11.10%.

Rheswm dros y penderfyniad:

Fel bod modd pennu Cyllideb 24/25 a chwblhau elfen y Cyngor Sir o Dreth y Cyngor.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam.

Oes – Mae Aseidiadau Effaith Integredig yn rhan o'r adroddiad ac wedi cael eu hystyried pan fo hynny'n briodol.

Trosolwg a Chraffu:

Mae Cynigion y Gyllideb wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol a rhoddwyd adroddiad i'r Cabinet ar 20/02/24 ar yr adborth.

Fframwaith Polisi:

Mae'r Gyllideb yn cefnogi pob agwedd ar Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Mae'r Gyllideb yn cefnogi pob agwedd ar Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Wedi eu nodi yn yr adroddiad.

Goblygiadau Cyfreithiol:

Mae hyn yn rhan o'r broses o osod cyllideb ac o rwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor i osod cyllideb erbyn 11 Mawrth. Mae'r Aelodau hefyd wedi derbyn cyngor ffurfiol oddi wrth y Swyddog Monitro ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau parthed pennu'r Gyllideb a'r goblygiadau posib pe na lwyddir i wneud hynny.

Goblygiadau Staffio:

Mae Cynigion y Gyllideb wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol. Byddai'r ymgynghori ffurfiol â'r staff yn digwydd yn y ffordd arferol, yn ôl yr angen.

Goblygiadau o ran eiddo / asedau:

Rhan o'r broses o osod y gyllideb.

Risg(iau):

Wedi eu nodi yn adroddiadau'r Gyllideb.

Pwerau Statudol:

Deddf Llywodraeth Leol a Chyllid 1972

Papurau Cefndirol:

Adroddiad drafft ar y Gyllideb i'r Cabinet – 23/01/24

Adroddiad drafft ar y Gyllideb i'r Cabinet – 20/02/24

Tudalen 22

Atodiadau:

- Atodiad 1: Crynodeb o Ofyniad y Gyllideb
Atodiad 2: Rhestr lawn o'r cynigion ar gyfer lleihau'r Gyllideb
Atodiad 3: Cyllidebau Rheoladwy a Net
(gan gynnwys Datganiad o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a Balansau Cyffredinol)
Atodiad 4: Strategaeth Gyfalaf
Atodiad 5: Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn
Atodiad 6: Dangosyddion Darbodus

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Duncan Hall - Cyllid a Chaffael

Swyddogion Adrodd:

- Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Justin Davies - Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd
Kirsty Dawson - Rheolwr Corfforaethol: Cyfrifeg y Gwasanaethau

Dyddiad:

22/02/24

<u>Crynodeb o Ofyniad y Gyllideb</u>		<u>£'000</u>
<u>Adnoddau sydd ar gael 2024/25</u>		
Cyllid Allanol Cyfun oddi wrth Lywodraeth Cymru (Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol)	2.87%	135,286
<u>Amcangyfrif o Incwm Treth y Cyngor</u>		
	<u>Taxbase</u>	
Sylfaen Treth y Cyngor (yn unol â'r adroddiad a aeth i'r Cyngor Llawn ar 14/12/23)	32,132.77	
Treth y Cyngor 2023/24	£1,553.60	
Treth y Cyngor 2024/25	<u>£1,726.05</u>	55,463
Sylfaen Treth y Cyngor: Premiwm ar Ail Gartrefi	1,234.94	
Treth y Cyngor 2023/24	£1,553.60	
Treth y Cyngor 2024/25	<u>£1,726.05</u>	2,132
Sylfaen Treth y Cyngor: Premiwm ar Eiddo Gwag Hirdymor	400.80	
Treth y Cyngor 2023/24	£1,553.60	
Treth y Cyngor 2024/25	<u>£1,726.05</u>	692
		58,286
Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gofynion y gyllideb	33,768.51	193,572
Y gyllideb sylfaenol a gariwyd drosodd o'r flwyddyn flaenorol		180,101
<u>Addasiadau Corfforaethol a Chyfrifoldebau Newydd:</u>		
<u>Dyraniadau Penodol</u>		
- Ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru		497
- Lwfansau Aelodau		72
- Ffioedd Archwilio Allanol		22
- Cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf		220
- Cynllun Cymorth Gostyngiadau Treth y Cyngor		725
- Ardoll Cydbwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru		100
		1,636
<u>Trosglwyddiadau i mewn (wedi'u rhagdybio yn y Setliad Terfynol):</u>		
- Menter Benthycu Llywodraeth Leol: Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron		1,944
- Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydu Arfordirol (Grant penodol ynghynt)		225
- Claddu ac Amlogsi Plant (Grant penodol ynghynt)		19
- Fframwaith Perfformiad a Gwella Gofal Cymdeithasol (Grant penodol ynghynt)		40
		2,228
Is-gyfanswm		3,864
<u>Mwy o bwysau o ran costau ar wasanaethau</u>		
- Diffyg dyfarniadau cyflog 2023/24 o gymharu â darpariaeth y gyllideb sylfaenol		899
- Y costau a ragdybir ar gyfer dyfarniadau cyflog 2023/24		4,812
- Costau Eraill Gweithwyr		410
- Chwyddiant sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth		884
- Ardrethi Busnes - Cynnydd o 5% o ran y Lluosydd / Rhyddhad Trosiannol		177
- Chwyddiant sy'n gysylltiedig â chontractau - Pyrth Llesiant Gydol Oes (gan gynnwys y Cyflog Byw Gwirioneddol)		2,782
- Chwyddiant sy'n gysylltiedig â chontractau eraill / cyflenwadau a gwasanaethau		988
- Mwy o alw ar wasanaethau - Pyrth Llesiant Gydol Oes		2,470
- Dod â Chartref Gofal Hafan y Waun o dan adain y Cyngor		1,100
- Pwysau ar Gyflenwadau a Gwasanaethau - Lleoliadau plant y tu allan i'r sir		2,262
- Colli incwm / Cyllid grant		155
		16,939
<u>Cynigion ar gyfer Lleihau Costau / Gwneud Arbedion</u>		
- Gostyngiadau / Arbedion yn y Gyllideb		(5,793)
- Cyfyngu'r cynnydd yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion i 3.1%		(1,539)
		(7,332)
Gofyniad Cyllideb Reoladwy a Chyllideb Net 2024/25		193,572

Cynigion Arfaethedig i Leihau'r Gyllideb

Cyfeirnod yr Eitem	Gwasanaeth	Maes Gwasanaeth	Naratif	24/25 Arbedion Refeniw / Incwm Arfaethedig £'000	24/25 Effaith ar Dreth y Cyngor Band D %
1	Cyllid a Chaffael	Rhyddhad Dewisol Ardrethi Annomestig Cenedlaethol	Lleihau'r hyblygrwydd sydd ar gael yn y gyllideb bresennol a lleihau'r cymorth o 01/04/25 i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Ngheredigion ynghyd ag uchafswm lefel dyfarniad	10	-0.02%
2	Cyllid a Chaffael	Cynllun Grantiau Cymunedol	Lleihad yng nghwmpas y Cynllun i ddarparu grantiau refeniw yn unig drwy Gronfa'r Degwm a'r gyllideb grant cyfalaf i'w lleihau o £200k i £100k	26	-0.06%
3	Cyllid a Chaffael	Yswiriant	Arbedion Gweithredol	50	-0.11%
4	Cyllid a Chaffael	Rheoli'r Trysorlys	Parhau i ddarparu Arbedion Rheoli'r Trysorlys - Llog a Dalwyd ar Fenthyca / Incwm Buddsoddi	365	-0.81%
5	Cyllid a Chaffael	Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	Arbedion Gweithredol yn seiliedig ar niferoedd cyfredol	200	-0.44%
6	Cyllid a Chaffael	Grant Claddu ac Amlogsi Plant Llywodraeth Cymru	Arbedion Gweithredol - Disgwyllir i'r grant gael ei drosglwyddo i'r Setliad Terfynol, ychydig iawn o wariant blynyddol	15	-0.03%
7	Porth Cymorth Cynnar	Cymorth ac Atal	Arbedion Gweithredol o Gynhyrchu Incwm e.e. Wal Ddringo	6	-0.01%
8	Porth Cymorth Cynnar	Cymorth ac Atal	Arbedion Gweithredol - Defnyddio trefniadau Bws Mini amgen	8	-0.02%
9	Porth Cymorth Cynnar	Cymorth ac Atal	Adolygiad o leoliadau a ddefnyddir ar gyfer Clybiau Ieuencid, ynghyd ag edrych ar fwy o ddefnydd o Wirfoddolwyr	10	-0.02%
10	Porth Cymorth Cynnar	Canolfannau Lles	Mwy o Incwm Masnachol yn cael ei gynhyrchu	75	-0.17%
11	Porth Cymorth Cynnar	Tai	Arbedion Gweithredol - uchafu incwm cynllun ECO	10	-0.02%
12	Porth Cymorth Cynnar	Tai - Digartrefedd	Lleihau nifer yr eiddo a lesir i mewn a symud i eiddo rhydd-ddaliadol, ynghyd ag adolygiad o Ffioedd Rheoli Llety Dros Dro a delir i Ddarparwyr allanol	60	-0.13%
13	Porth Cymorth Cynnar	Gofalwyr a'r Gymuned	Adolygu'r defnydd o adeilad Canolfan Deuluol Penparcau	5	-0.01%
14	Porth Cymorth Cynnar	Cymorth ac Atal	Arbedion Gweithredol o adolygu CLGau Gwasanaeth Ieuencid a Gofalwyr a'r Gymuned	33	-0.07%
15	Porth Cymorth Cynnar	Arbedion Ynni	Arbedion a ragwelir o brisiau nwy is o Hydref 23 (dangosol 13%)	15	-0.03%
16	Porth Cynnal	Adolygiad o Wasanaeth Eistedd Gofalwyr	Lleihau lefel darpariaeth y Gyllideb o £255k i £150k a bod yn rhan o'r Adolygiad ehangach o Wasanaethau Dydd a Seibiant.	105	-0.23%
17	Porth Cynnal	Prydau yn y Cartref	Rhoi'r gorau i weithredu'r gwasanaeth yn uniongyrchol a chyfeirio at Ddarparwyr allanol o fis Ebrill 2024 ymlaen	18	-0.04%
18	Gwasanaethau Democraataidd	Cyfieithu	Arbedion gweithredol i leihau lefel y Cyfieithu allanol	15	-0.03%
19	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	Diwylliant - Gwasanaeth Cerdd	Arbedion gweithredol / arbedion effeithlonrwydd	10	-0.02%
20	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	Diwylliant - Theatr Felin-fach	Arbedion gweithredol / arbedion effeithlonrwydd o swydd(i) (g)wag	63	-0.14%
21	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	Diwylliant - Cefnogi'r Celfyddydau	Terfynu Cytundebau Lefel Gwasanaeth cyfredol gyda Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth (£30k) a Theatr Mwdan (£14k)	44	-0.10%
22	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	Diwylliant - Amgueddfa Ceredigion	Arbedion gweithredol / arbedion effeithlonrwydd o swydd(i) (g)wag	26	-0.06%
23	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	Diwylliant - Amgueddfa Ceredigion	Cyflwyno Ffioedd a Chostau er mwyn ymweld ag Amgueddfa Ceredigion	60	-0.13%
24	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	Diwylliant - Amgueddfa Ceredigion	Chwilio am bartion â diddordeb i weithredu Amgueddfa Ceredigion ar sail Elusennol / Ymddiriedolaeth	25	-0.06%
25	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	Staffio Craidd	Adolygiad o Strwythur Canolog Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	259	-0.58%
26	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	Uned Arlwygo Gorfforaethol	Canlyniad Cyfradd Uned Prydau Ysgol Am Ddim Cyffredinol Llywodraeth Cymru yn cynyddu o £2.90 i £3.20 o Ionawr 24 (yn lleihau lefel cymhorthdal y Cyngor)	150	-0.33%
27	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	Arbedion Ynni - Cyllideb Wrth Gefn	Arbedion a ragwelir o brisiau nwy is o Hydref 23 (dangosol 13%)	3	-0.01%
Llanwenog	1726.05	25.08	332.03	2083.16	1388.77	1620.24	1851.69	2083.16	2546.08	3009.01	3471.93	4166.32	4860.71	
Llanwnnen	1726.05	16.20	332.03	2074.28	1382.85	1613.33	1843.80	2074.28	2535.23	2996.18	3457.13	4148.56	4839.99	
Dyffryn Arth	1726.05	24.12	332.03	2082.20	1388.13	1619.49	1850.84	2082.20	2544.91	3007.62	3470.33	4164.40	4858.47	
Aberporth	1726.05	39.32	332.03	2097.40	1398.26	1631.31	1864.35	2097.40	2563.49	3029.58	3495.66	4194.80	4893.94	
Beulah	1726.05	27.98	332.03	2086.06	1390.70	1622.49	1854.27	2086.06	2549.63	3013.20	3476.76	4172.12	4867.48	
Llandyfriog	1726.05	30.10	332.03	2088.18	1392.12	1624.14	1856.16	2088.18	2552.22	3016.26	3480.30	4176.36	4872.42	
Llandysul	1726.05	39.72	332.03	2097.80	1398.53	1631.62	1864.71	2097.80	2563.98	3030.15	3496.33	4195.60	4894.87	
Llangoedmor	1726.05	53.45	332.03	2111.53	1407.68	1642.30	1876.91	2111.53	2580.76	3049.99	3519.21	4223.06	4926.91	
Llangrannog	1726.05	23.16	332.03	2081.24	1387.49	1618.74	1849.99	2081.24	2543.74	3006.23	3468.73	4162.48	4856.23	
Penbryn	1726.05	16.00	332.03	2074.08	1382.72	1613.17	1843.62	2074.08	2534.99	2995.89	3456.80	4148.16	4839.52	
Troedyraur	1726.05	17.48	332.03	2075.56	1383.70	1614.33	1844.94	2075.56	2536.79	2998.03	3459.26	4151.12	4842.98	
Y Ferwig	1726.05	36.47	332.03	2094.55	1396.36	1629.10	1861.82	2094.55	2560.00	3025.46	3490.91	4189.10	4887.29	

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**Adroddiad i'r:** Cyngor**Dyddiad y Cyfarfod:** 29 Chwefror 2024**Teitl:** Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2024/25.**Pwrpas yr adroddiad:** Ystyried Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2024/25**Er:** Penderfyniad**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:****Y Cyngorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael****1. CYFLWYNIAD**

Ystyriwyd yr adroddiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw gan yn Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20/02/2024, sydd wedi'i atodi fel Atodiad 1.

2. PENDERFYNIADAU'R CABINET

Penderfynodd y Cabinet:

- (i) I gymeradwyo i'r Cyngor Llawn:
- a) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthycyca a Buddsoddiadau ar gyfer 2024/25
 - b) cymeradwyo Polisi y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25; a
 - c) bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, i ddiwygio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a'r Rhaglen Fuddsoddi, yn ystod y flwyddyn.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam.**

Oes

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**Hirdymor:** Mae'r strategaeth yn nodi sut mae'r cyngor yn rheoli ei arian parod, buddsoddiadau a dyledion yn y tymor byr ac yn y tymor hwy.**Cydweithio:** Gyda'n Cyflenwyr Bancio Corfforaethol (Barclays), ein Hymgyngorwyr Trysorlys a'r rhestr partiön i gontract a nodir yn y Strategaeth.**Cynnwys:** Ddim yn berthnasol – Gwybodaeth yn unig**Atal:** Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y cyngor yn rheoli ei adnoddau o ran arian parod mewn modd rhagweithiol.**Integreiddio:** Ddim yn berthnasol – Gwybodaeth yn unig

Argymhelliad/argymhellion:

I'r Cyngor:

- a) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthycyca a Buddsoddiadau ar gyfer 2024/25
- b) cymeradwyo Polisi y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25; a
- c) bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, i ddiwygio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a'r Rhaglen Fuddsoddi, yn ystod y flwyddyn.

Rhesymau dros y penderfyniad:

Pennu Strategaeth Rheoli Trysorlys a Pholisi Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25

Trosolwg a Chraffu:

I'w ystyried

Fframwaith Polisi:

Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Mae Rheoli'r Trysorlys yn ategu pob un o'r amcanion strategol

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Cyllid: Incwm Buddsoddi/Llog allanol a dalwyd

Goblygiadau Cyfreithiol:

Dim

Goblygiadau Staffio:

Dim

Goblygiadau eiddo / asedau:

Pennu'r strategaeth ar gyfer sut mae'r Cyngor yn rheoli ei falans buddsoddi a'i anghenion benthycyca.

Risg(iau):

Dim

Pwerau Statudol:

Deddf Llywodraeth Leol 2003

Papurau Cefndir:

Dim

Atodiadau:

Atodiad 1 – Adroddiad i'r Cabinet

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Swyddog Adrodd:

Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd

Dyddiad:

12 Chwefror 2024

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 20 Chwefror 2024

Teitl: Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2024/25.

Pwrpas yr adroddiad: Ystyried Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2024/25 a gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn ar gyfer y cyfarfod ar 29/02/24.

Er: Penderfyniad

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:

Y Cyngorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael

1. CYFLWYNIAD

Mae Codau Ymarfer CIPFA ar Reoli Materion Ariannol a'r Trysorlys 2021 yn mynnu bod y Cyngor yn llunio Strategaeth ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Mae hon yn esbonio polisiau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei fuddsoddiadau a'i ddyledion a blaenoriaethu sicrwydd a hylifedd y buddsoddiadau hyn.

Mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Strategaeth yn flynyddol. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddir adroddiadau chwarterol ar berfformiad trysorlys (Mehffin/Rhagfyr), adroddiad canol blwyddyn (Medi), ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, Adroddiad Alldro. Hefyd, gall yr Aelodau ei hadolygu'n rheolaidd fel rhan o adroddiadau neilltuol i Bwyllgor Craffu'r Adnoddau Corfforaethol, yn ogystal â hyfforddiant i'r Aelodau ar adegau priodol.

Nod y trefniadau adrodd hynny yw sicrhau bod pwy bynnag sydd â chyfrifoldebau amrywiol dros Reoli'r Trysorlys yn llwyr werthfawrogi goblygiadau'r polisiau a'r gweithgareddau sy'n ymwneud â rheoli'r trysorlys, a bod pwy bynnag sy'n gweithredu'r polisiau ac yn cynnal trafodion wedi cyflawni eu cyfrifoldebau o ran dirprwyo ac adrodd mewn modd priodol. Mae'r strategaeth a awgrymir ar gyfer 2024/25 wedi ei seilio ar safbwyntiau ynghylch cyfraddau llog, yn ogystal â rhagolygon y farchnad gan ymgynghorwyr ac yswirwyr Trysorlys y Cyngor ac mae'n cynnwys:

- Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys
- Sefyllfa Portffolio'r Trysorlys
- Rhagolygon y cyfraddau llog
- Aildrefnu dyledion
- Polisi Teilyngdod Credyd
- Trefniadau Bancio
- Dangosyddion Darbodus
- Yr Anghenion Cyllidol
- Strategaeth Fenthyciadau
- Strategaeth Fuddsoddi
- Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw

Mae'r elfennau hyn yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Canllawiau Llywodraeth Cymru o ran Buddsoddiadau a'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, Cod Darbodus CIPFA a Chod CIPFA o ran Rheoli'r Trysorlys.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cyflogi Link Treasury Solutions Ltd fel ymgynghorwyr allanol i'r Cyngor ynghylch y Trysorlys ar gcontract a ddaw i ben ar yr 30/08/2026. Fodd bynnag, er bod gennym ymgynghorwyr allanol, y Cyngor ei hun sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli'r Trysorlys.

2. DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS

Mae'r Cyngor yn diffinio ei weithgareddau o ran Rheoli'r Trysorlys fel 'rheoli buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod, ei drafodion o ran bancio, marchnadoedd arian a'r farchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol dros y risgiau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hynny a cheisio'r perfformiad gorau posibl yn unol â'r risgiau hynny'.

Mae'r Cyngor yn ystyried mai nodi, monitro a rheoli risg yw'r maen prawf pennaf o ran mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau lle mae Rheoli'r Trysorlys yn y cwestiwn. Felly, o ran dadansoddi gweithgareddau sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys ac adrodd yn eu cylch canolbwyntir ar y goblygiadau sydd o ran risg i'r Cyngor, ac unrhyw offerynnau ariannol yr ymgymerir â hwy i reoli'r risgiau hynny.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd Rheoli'r Trysorlys yn effeithiol yn help iddo gyflawni'r amcanion sydd ganddo o ran ei fusnes a'i wasanaethau. Felly, mae wedi ymrwymo i'r egwyddor o geisio gwerth am arian o ran rheoli'r trysorlys, a gweithredu technegau cynhwysfawr ac addas o ran rheoli perfformiad, yng nghyd-destun rheoli risg yn effeithiol.

3. DANGOSYDDION DARBODUS

Mae'r Dangosyddion Darbodus sydd yn Atodiad A yn berthnasol o ran gosod Strategaeth integredig ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Fe'u cyflwynir i'w cymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor Llawn ar 29/02/2024.

4. SEFYLLFA PORTFFOLIO'R TRYSORLYS

Dyma fanylion Portffolio Trysorlys y Cyngor:

	<u>Ar</u> <u>31/03/2023</u> <u>£m</u>	<u>Ar</u> <u>31/12/2023</u> <u>£m</u>
<u>Benthyciadau ar Gyfradd</u>		
<u>Sefydlog</u>		
- PWLB	101.1	100.6
- Benthyciadau'r farchnad	5.8	5.8
- Ad-dalu benthyciad Llywodraeth Cymru	0.9	0.8
Cyfanswm y ddyled	<u>107.8</u>	<u>107.2</u>

Tudalen 269

<u>Buddsoddiadau</u>		
- Mewnol	38.7	43.5
Cyfanswm y buddsoddiadau	38.7	43.5
Dyled Net	69.1	63.7

Cipolwg ar adeg benodol yw'r ffigurau sydd yn y tabl, ac mae union lefel y benthyciadau a'r buddsoddiadau a wneir yn ystod y flwyddyn yn gallu amrywio'n ddirfawr, wrth i incwm ddod i mewn ac wrth i daliadau gael eu gwneud.

5. Y GOFYNION CYLLIDO

Gellir bwrw amcan ynghylch y gofynion cyllido at y dyfodol trwy ystyried yr eitemau mwyaf sylweddol o ran llif arian sy'n codi o effeithiau cyfun y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd ddiweddaraf, cyllideb arfaethedig 2024/25, lefel y dyledion sydd ar fin aeddfedu ac union lefel y benthyciadau cyfredol o'i gymharu â'r angen sylfaenol i fenthycia (a adwaenir hefyd fel benthycia mewnol). O ystyried pob un o'r ffactorau hynny yn ei dro:

	<u>2024/25</u> <u>Amcangyfrif</u> <u>£m</u>	<u>2025/26</u> <u>Amcangyfrif</u> <u>£m</u>	<u>2026/27</u> <u>Amcangyfrif</u> <u>£m</u>
a) <u>Effaith y Rhaglen Gyfalaf a'r Cyllidebau Refeniw diweddaraf</u>			
Benthycia â Chymorth Llywodraeth Cymru	2.9	2.9	2.9
Cynllun Amddiffyn yr Arfordir - Benthycia	27.3	-	-
Darbodus â Chymorth Llywodraeth Cymru			
Taliadau dyledion statudol a roddwyd o'r neilltu (MRP)	(1.5)	(1.6)	(1.7)
Amcangyfrif o'r newid yn y cronfeydd wrth gefn a'r balansau	14.0	1.5	1.5
Amcangyfrif o'r gofynion cyllido	42.7	2.8	2.7
b) <u>Effaith y dyledion sy'n aeddfedu</u>			
Dyled aeddfedu PWLB yn aeddfedu	4.2	1.2	3.3
Amcangyfrif o'r gofynion cyllido	3.0	1.2	3.3
c) <u>Effaith Sefyllfa'r Benthyciadau Mewnol</u>			
	<u>31/03/25</u>	<u>31/03/26</u>	<u>31/03/27</u>
<i>Amcangyfrif o'r Gofynion Cyllid Cyfalaf</i>	167.8	169.0	170.1
<i>Amcangyfrif o'r Benthyciadau Allanol Gros</i>	149.3	152.0	154.7
<i>Amcangyfrif o'r Gwahaniaeth</i>	18.5	17.0	15.4
AMCANGYFRIF O GYFANSWM y gofynion cyllido	46.9	4.0	6.0

Tudalen 270

Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod posibilrwydd y bydd angen benthyca oddeutu £56.8m dros y tair blynedd nesaf. Y prif sbardun y tu ôl i hyn yw bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi benthyca darbodus ar gyfer Cynllun Amddiffyn yr Arfordir Aberaeron (£27.3m yw'r amcangyfrif diweddaraf sy'n weddill i'w fenthycg) ar y cyd ag ad-daliadau blynyddol dyled flwydd-dal PWLB a dyled cyfnod penodol PWLB yn aeddfedu (£3.0m yn 2024/25 a £2.0m yn 2026/27).

6. RHAGOLYGN Y CYFRADDAU LLOG

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, 5.25% yw Cyfradd Banc Lloegr ar ôl cael ei chodi'n sylweddol yn dilyn isafbwyntiau o 0.1% yn ystod pandemig Covid-19. Dangosir rhagolygon ymgynghorydd trysorlys y Cyngor ar gyfer cyfraddau llog ar 8^{fed} Ionawr 2024 yn y tabl isod. Mae'r rhagolygon yn disgwyl bod Cyfradd y Banc ar ei hanterth ar hyn o bryd a bydd yn dechrau gostwng yn ystod ail hanner blwyddyn galendr 2024.

Gwasanaethau Ased Link: Cyfradd Llog a ragwelir								
	Mawrth 24	Mehefin 24	Medi 24	Rhagfyr 24	Marwrth 25	Mehefin 25	Medi 25	Rhagfyr 25
Cyfradd Banc	5.25%	5.25%	4.75%	4.25%	3.75%	3.25%	3.00%	3.00%

Diweddarwyd y rhagolwg uchod ar gyfer cyfraddau llog ar 8fed Ionawr 2024 ac mae'n adlewyrchu barn ein hymgyngorwyr trysorlys y byddai'r Pwyllgor Polisi Ariannol yn awyddus i ddangos ymhellach ei rinweddau gwrth-chwyddiant trwy gadw Cyfradd y Banc ar 5.25% tan o leiaf ail hanner 2024.

Mae ein hymgyngorwyr yn disgwyl i doriadau i'r gyfradd ddechrau pan fydd chwyddiant CPI a data cyflogau/cyflogaeth yn cefnogi symudiad o'r fath, a phan fo'n debygol y bydd yr economi gyffredinol yn dioddef o leiaf arafiad neu ddirwasgiad ysgafn dros y misoedd nesaf (er bod y datganiadau GDP diweddaraf wedi synnu gyda'u cadernid parhaus).

Mae rhagolygon bob amser yn gyfnewidiol a chânt eu harwain nid yn unig gan ddatganiadau data economaidd ac eglurhad gan Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr ynghylch ei bolisiau ariannol a'r Llywodraeth ynghylch ei bolisiau cyllidol, ond hefyd ffactorau rhyngwladol megis datblygiadau polisi yn yr Unol Daleithiau ac Ewrop yn ogystal â'r gwrthdaro parhaus rhwng Rwsia ac Wcráin, a Gaza ac Israel.

7. Y STRATEGAETH FENTHYCA

Mae rhagolygon Link ar gyfer cyfraddau benthyca (ar ôl ystyried gostyngiad cyfraddau PWLB (0.20%) fel a ganlyn:

Gwasanaethau Ased Link: Cyfradd Llog a ragwelwyd								
	Mawrth 24	Mehefin 24	Medi 24	Rhagfyr 24	Marwrth 25	Mehefin 25	Medi 25	Rhagfyr 25
Cyfradd 5 mlynedd PWLB	4.50%	4.40%	4.30%	4.20%	4.10%	4.00%	3.80%	3.70%
Cyfradd 10 mlynedd PWLB	4.70%	4.50%	4.40%	4.30%	4.20%	4.10%	4.00%	3.90%

Tudalen 271

Cyfradd 25 mlynedd PWLB	5.20%	5.10%	4.90%	4.80%	4.60%	4.40%	4.30%	4.20%
Cyfradd 50 mlynedd PWLB	5.00%	4.90%	4.70%	4.60%	4.40%	4.20%	4.10%	4.00%

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn tanfenthg oherwydd ei fod yn defnyddio benthyciadau mewnl yn lle benthyciadau allanol. Yn ymarferol, mae'r angen llawn am fenthyciadau cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf ac eithrio Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill) yn ffigur uwch nag union ddyled benthyciadau allanol y Cyngor fel y gwelir yn y tabl yn Adran 5c. Mae'r strategaeth hon yn un ddarbodus ar hyn o bryd gan fod disgwyl i gyfraddau benthg tymor canolig a hirdymor ostwng unwaith yr eir i'r afael â'r pryderon presennol o ran chwyddiant, a hynny drwy bolisi ariannol mwy tynn yn y tymor byr.

O ystyried y ffactorau hyn oll, yn ogystal â'r amcangyfrif o angen y Cyngor am gyllid sydd yn Adran 5, bydd strategaeth fenthg arfaethedig y Cyngor yn ystyried benthyciadau newydd trwy ystyried y canlynol:

- Benthyciadau newydd gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) (gan ystyried siâp y gromlin elw a'r proffil cyfredol o ran aeddfedwydd y dyledion) er mwyn ateb yr amcangyfrif o'r angen i fenthg sydd wedi ei nodi.
- Lle bo hynny'n fanteisiol o gymharu â PWLB, rhoddir ystyriaeth i ffynonellau benthg eraill y llywodraeth, er enghraifft Banc Seilwaith y DU.
- Benthyciadau marchnad hirdymor ar gyfradd sefydlog (lle mae'r cyfraddau'n is o lawer na chyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus am y cyfnod aeddfedu cyfatebol), ar yr amod bod cydbwysedd priodol i'w gael rhwng dyledion y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a'r farchnad drwyddi draw yn y portffolio dyledion.
- Gellid defnyddio benthyciadau dros dro neu dymor byr gan awdurdodau lleol eraill neu'r marchnadoedd arian am hyd at 5 mlynedd
- Mae'n bosib yr ystyrir hefyd yr Asiantaeth Bondiau Bwrdeistrefol.

Ni wnaiff y Cyngor fenthg mwy na'r hyn y bydd arno ei angen, nac ychwaith fenthg ymlaen llaw, er mwyn gwneud elw o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthg yn unig. Byddai angen i unrhyw benderfyniad i fenthg ymlaen llaw cyn i'r angen godi fod yn unol â'r Amcangyfrifon o'r Anghenion Cyllid Cyfalaf cymeradwy (un o'r Dangosyddion Darbodus) ac fe gaiff ei ystyried yn ofalus er mwyn sicrhau gwerth am arian, y gall y Cyngor sicrhau diogelwch y cyllid hwnnw ac y gall fforddio'r 'costau cario' tymor byr.

O ystyried hyn oll, bydd angen arfer gofal o ran Rheoli'r Trysorlys yn 2023/24. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro'r farchnad o ran cyfraddau llog a bydd yn cymryd agwedd bragmataidd wrth i amgylchiadau newid, a bydd yn rhoi cyfrif am gyngor ymgynghorwyr allanol y Cyngor parthed y Trysorlys ac yn adrodd unrhyw benderfyniadau perthnasol gerbron y Cabinet y tro nesaf y bydd cyfle i wneud hynny.

8. AILDREFNU DYLEDION

Prin yw'r cyfleoedd i aildrefnu dyledion gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ei hun yn yr hinsawdd sydd ohoni. Mae hefyd yn annhebygol y bydd y Cyngor yn gallu ad-dalu unrhyw ddyledion pellach cyn pryd, oni fyddai hynny'n rhan o drefniadau i aildrefnu dyledion. Fodd bynnag, petai cyfleoedd yn codi i ailstrwythuro byddai'r rheiny'n cael eu hystyried yn ofalus a byddai'r rhesymau dros aildrefnu o unrhyw fath yn cynnwys:

- creu arbedion ariannol a / neu arbedion llif arian gostyngol;
- helpu i gyflawni'r strategaeth fenthycyca a amlinellir uchod; a
- gwella balans y portffolio (e.e. y proffil aeddfedu)

9. Y STRATEGAETH FUDDSODDI

9.1 Trosolwg

Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, Côd Ymarfer a Nodiadau Canllaw CIPFA ar Reoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a Thraws-sectorau 2021, a Nodiadau Canllaw CIPFA ar Reoli'r Trysorlys 2021.

Mae Llywodraeth Cymru a CIPFA wedi ymestyn ystyr 'buddsoddiadau' i gynnwys buddsoddiadau ariannol a rhai nad ydynt yn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin yn unig â buddsoddiadau'r Trysorlys (ariannol), sef y rhai sy'n cael eu rheoli gan y tîm rheoli'r trysorlys.

Dyma flaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth:

- Diogelwch y cyfalaf
- Hylifedd y buddsoddiadau.
- Arenillion (*yield*)

Hefyd bydd y Cyngor yn ceisio cael yr elw gorau posib ar ei fuddsoddiadau yn gymesur â'r diogelwch a'r hylifedd priodol. Mae awydd y Cyngor am risg yn isel er mwyn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch ei fuddsoddiadau. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol ystyrir ei bod yn briodol cadw buddsoddiadau yn rhai tymor byr rhag ofn y bydd angen am lif arian. Serch hynny, lle bo'n briodol bydd y Cyngor hefyd yn ystyried y gwerth a geir mewn cyfnodau buddsoddi o hyd at 12 mis gyda sefydliadau ariannol uchel eu sgôr.

Mae benthycy arian dim ond er mwyn buddsoddi a gwneud elw yn anghyfreithlon ac ni fydd y Cyngor yn ymgymryd â gweithgaredd o'r fath.

9.2 Polisi Teilyngdod Credyd

Mae'r Swyddog Adran 151 yn defnyddio gwasanaeth teilyngdod credyd Link. Mae'r gwasanaeth hwnnw'n defnyddio dull modelu soffistigedig ac mae statysau credyd gan y tair asiantaeth sy'n gosod statysau credyd - Fitch, Moodys a Standard & Poors - yn greiddiol iddo. Fodd bynnag, nid yw'n dibynnu'n llwyr ar statws credyd cyfredol y gwahanol bartïon, mae'n defnyddio'r wybodaeth ganlynol hefyd:

- Gwyllo credyd a rhagolygon credyd gan yr asiantaethau statws credyd

- Amrediadau Cytundebau Ffeirio Credyd (CDS) er mwyn rhoi rhybudd mewn da bryd o newidiadau tebygol mewn statws credyd
- Statysau sofran er mwyn dewis partïon i gontract o blith y gwledydd mwyaf dibynadwy yn unig

Mae'r dull hwn o fodelu'n cyfuno statysau credyd, gwylio credyd, rhagolygon credyd ac amrediadau Cytundebau Ffeirio Credyd (CDS) mewn system sgorio gytbwys a'r canlyniad yw cyfres o fandiau sydd wedi eu codio yn ôl lliwiau. Mae'r bandiau hynny'n dangos teilyngdod credyd cymharol y partïon i gontract ac maent yn awgrymu uchafswm ar gyfer hyd y buddsoddiad. Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfnodau uchafsymiol tebyg i'r rhai a awgrymir gan fethodoleg safonol Link a, heblaw am gadw buddsoddiadau sydd o dan 1 flwyddyn o hyd.

<u>Band</u> <u>Cyfnod</u>	<u>Cyfnod</u> <u>hiraf</u> <u>arfaethedig</u> <u>Link's</u>	<u>Cyfnod</u> <u>arfaethedig y</u> <u>Cyngor</u>	
Melyn	5 mlynedd	1 flwyddyn	<i>yn gymwys i fanciau'r Deyrnas Gyfunol sydd wedi eu gwladoli'n rhannol/yn llawn</i>
Piws	2 flynedd	1 flwyddyn	
Glas	1 flwyddyn	1 flwyddyn	
Oren	1 flwyddyn	1 flwyddyn	
Coch	6 mis	6 mis	
Gwyrdd	100 niwrnod Nis	100 niwrnod Nis	
Dim lliw	defnyddir	defnyddir	

Caiff pob statws credyd ei fonitro bob wythnos, ac fe hysbysir y Cyngor am newidiadau yn statysau pob un o'r tair asiantaeth trwy wasanaeth teilyngdod credyd Link's, yn ogystal â bwletin wythnosol o statysau credyd cyfredol pob parti i gontract a bandiau cyfnodau. Pe bai rhyw israddio neu'i gilydd yn peri bod parti i gontract/cynllun buddsoddi yn methu â chyflawni meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni wneir defnydd pellach arno i wneud buddsoddiadau newydd. Ar adegau yn y gorffennol mae Link's wedi gosod lliw gwyrdd yn lliw diofyn ar bob parti i gontract, ac mae hwnnw'n nodi cyfnod benthyca uchaf o dri mis. O ran eglurder, os digwydd hynny eto, bydd y Cyngor yn ystyried cod lliw'r parti cyn gosod lliw diofyn, er mwyn penderfynu a yw'r parti i gontract yn cyflawni meini prawf y statws credyd cymeradwy a welir yn Atodiad B: Anecs 1 ac yna defnyddir y cyfnod uchaf o dri mis y mae Link's yn ei awgrymu ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, ni ddibynnir yn llwyr ar wasanaeth teilyngdod credyd allanol Link's; bydd y Swyddog Adran 151 hefyd yn defnyddio data/gwybodaeth am y farchnad a gwybodaeth ynghylch cymorth y llywodraeth i'r banciau a statws credyd cymorth y llywodraeth.

9.3 Gwrthbartïon Cyfredol

O ran y gwrthbartïon a ddefnyddir fel rhan o Strategaeth Fuddsoddi gyfredol, yn gryno yr ydym yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Dim buddsoddiadau am fwy na blwyddyn

- Dim buddsoddiadau gyda phartïon i gontract nad ydynt yn cyflawni meini prawf sylfaenol statws credyd a ddiffinnir yn 'Wyrdd' gan *Link*
- Rhestr sefydlog o bartïon (yn amodol ar gyflawni'r meini prawf sy'n ymwneud â statws credyd):
 - Banc Barclays
 - Grŵp Bancio National Westminster gan gynnwys Natwest Markets plc
 - Grŵp Bancio Lloyds gan gynnwys Lloyds Bank Corporate Markets plc
 - HSBC
 - Cymdeithas Adeiladu Nationwide
 - Santander UK
 - Royal Bank of Scotland
 - Cymdeithas Adeiladu Coventry
 - Cymdeithas Adeiladu Leeds
 - Cymdeithas Adeiladu Yorkshire
 - Cymdeithas Adeiladu Skipton
 - Banc Standard Chartered
 - Banc Rhyngwladol Goldman Sachs
 - Grŵp Bank of Scotland
 - Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) Llywodraeth y DU.

Gan roi ystyriaeth lawn i'r blaenoriaethau o ran buddsoddi sef diogelwch, hylifedd ac arenillion, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r farchnad am wrthbartïon buddsoddi a chynhyrchion buddsoddi a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, y cymunedau a'r gymdeithas. Ar hyn o bryd, ceir nifer o anghysonderau wrth asesu rhinweddau gwrthbartïon o ran yr amgylchedd, materion cymdeithasol a threfniadau llywodraethu ac nid oes yna system safonol i bwysu a mesur y rhinweddau hyn. Serch hynny, bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'n hymgyngorwyr i nodi gwrthbartïon a chynhyrchion buddsoddi priodol.

9.4 Strategaeth Arfaethedig 2023/24

Wrth wneud buddsoddiadau, cyfeirir at y balans craidd a'r gofynion o ran llif arian a fydd, yn gyffredinol, yn bolisi gweithredol o fuddsoddi am gyfnodau hyd at 3 mis. Fodd bynnag, os bydd cyllid dros ben, yna gellid gwneud buddsoddiadau am gyfnodau hyd at flwyddyn. Gwneir hynny drwy gymryd cyngor gan ymgynghorwyr allanol y Cyngor yn ôl y gofyn, ystyried amgylchiadau cyfredol y farchnad, a sicrhau bod pob gwrthbarti a ddefnyddir yn ymddangos ar y Rhestr o Wrthbartïon Cymeradwy sydd yn Atodiad B (Anecs 1) ac yn cyflawni'r meini prawf sydd wedi eu pennu o ran statws credyd.

Mae rhestr gyflawn o offerynnau buddsoddi arfaethedig 2024/25 yn Atodiad B. Caiff terfynau'r gwrthbartïon eu hadolygu'n rheolaidd ac fe gaiff unrhyw newidiadau eu hawdurdodi gan y Swyddog Adran 151. Mae'r rhestr ddiweddaraf o wrthbartïon arfaethedig i'w gweld yn Anecs 1 Atodiad B. Hefyd ni ragwelir y byddwn yn defnyddio Rheolwr Cronfa Allanol, ac eithrio i brynu Giltiau'r Llywodraeth a/neu Filiau'r Trysorlys.

10. CONTRACT BANCIO

Oherwydd bod y contract bancio gyda Barclays yn dod i ben ar Chwefror y 29^{ain} 2024, cynhaliodd y Cyngor ymarfer tendro llawn yn ystod hydref 2023 yn gwahodd darparwyr gwasanaeth bancio i dendro am gontract gwasanaethau bancio corfforaethol y Cyngor.

Ar ôl ymarfer gwerthuso cadarn, dyfarnwyd y contract i Barclays am gyfnod o saith mlynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd ychwanegol.

11. POLISI ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)

Mae Datganiad Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2024/25 i'w weld yn Atodiad C ac mae'n nodi bod y Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw presennol yn parhau.

12. GWYBODAETH A SGILIAU

Mae Côt CIPFA yn mynnu bod swyddog adran 151 yn sicrhau bod Aelodau yn cael hyfforddiant digonol ynghylch rheoli'r trysorlys. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r Aelodau sy'n gyfrifol am graffu. Mynychodd yr Aelodau ddigwyddiad 'Rheoli'r Trysorlys – Hyfforddiant i Aelodau' ar 8 Tachwedd 2022. Cyflwynwyd yr hyfforddiant yma gan ein ymgynghorwyr ar reoli'r trysorlys, Link Treasury Solutions Ltd.

Mae anghenion hyfforddiant y swyddogion sy'n rheoli'r trysorlys hefyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Cyngor yn cynnal cofrestr Gwybodaeth a Sgiliau sy'n nodi pob rôl sy'n gysylltiedig â swyddogaeth y Trysorlys gan nodi'r cymwyseddau craidd sydd eu hangen ar gyfer pob rôl, cofnodi unrhyw hyfforddiant a fynychwyd gan swyddogion ynghyd â'u gofynion hyfforddi at y dyfodol.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam.

Oes

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor:	Mae'r strategaeth yn nodi sut mae'r cyngor yn rheoli ei arian parod, buddsoddiadau a dyledion yn y tymor byr ac yn y tymor hwy.
Cydweithio:	Gyda'n Cyflenwyr Bancio Corfforaethol (Barclays), ein Hymgyngorwyr Trysorlys a'r rhestr partion i gontract a nodir yn y Strategaeth.
Cynnwys:	Ddim yn berthnasol – Gwybodaeth yn unig
Atal:	Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y cyngor yn rheoli ei adnoddau o ran arian parod mewn modd rhagweithiol.
Integreiddio:	Ddim yn berthnasol – Gwybodaeth yn unig

Argymhelliad/argymhellion:

Argymhellir bod y Cabinet yn nodi'r adroddiad ac:

yn argymell i'r Cyngor Llawn:

- a) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthycyca a Buddsoddiadau ar gyfer 2024/25**
- b) cymeradwyo Polisi y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25; a**
- c) bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, i ddiwygio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a'r Rhaglen Fuddsoddi, yn ystod y flwyddyn.**

Rhesymau dros y penderfyniad:

Pennu Strategaeth Rheoli Trysorlys a Pholisi Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25

Trosolwg a Chraffu:

I'w ystyried

Fframwaith Polisi:

Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn sefydliad sy'n addas i'r diben i ddarparu gwasanaethau sy'n gwella i ddiwallu anghenion ein dinasyddion.

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Cyllid: Incwm Buddsoddi/Llog allanol a dalwyd

Goblygiadau Cyfreithiol:

Dim

Goblygiadau Staffio:

Dim

Goblygiadau eiddo / asedau:

Pennu'r strategaeth ar gyfer sut mae'r Cyngor yn rheoli ei falans buddsoddi a'i anghenion benthyca.

Risg(iau):

Dim

Pwerau Statudol:

Deddf Llywodraeth Leol 2003

Papurau Cefndir:

Dim

Atodiadau:

Atodiad A: Dangosyddion Darbodus o ran Rheoli'r Trysorlys

Atodiad B: Atodlen Buddsoddi

Atodiad C: Datganiad Polisi ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw 2024/25

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Swyddog Adrodd:

Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd

Dyddiad:

12 Chwefror 2024

Dangosyddion Darbodus o ran Rheoli'r Trysorlys**Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf**

I sicrhau bod dyled yn cael ei defnyddio at ddibenion cyfalaf yn unig yn y tymor canolig, dylai awdurdodau lleol sicrhau nad yw'r ddyled allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf.

Yn ôl y Swyddog Adran 151, ni chafodd yr awdurdod unrhyw anhawster o ran bodloni'r gofyniad hwn yn 2022/23 ac nid yw'n rhagweld unrhyw anawsterau yn y flwyddyn gyfredol na'r blynyddoedd i ddod. Mae'r farn hon yn ystyried yr ymrwymadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn y rhaglen gyfalaf 3 blynedd.

Terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27
	£m	£m	£m	£m
Benthyca	134	158	163	168
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	7	10	10	10
Cyfanswm	141	168	173	178

Terfyn gweithredol ar gyfer dyled allanol

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27
	£m	£m	£m	£m
Benthyca	128	152	157	162
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	6	9	9	9
Cyfanswm	134	161	166	171

Dyled allanol wirioneddol

Dyled allanol wirioneddol y Cyngor ar 31/03/2023 oedd £113.7m (a oedd yn cynnwys Benthyca Allanol o £107.8m a Rhwymedigaethau Hirdymor o £5.9m).

Strwythur aeddfedu benthycia		
	Terfyn uchaf	Terfyn isaf
Llai na 12 mis	20%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	20%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	50%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%
10 mlynedd a throsodd	95%	25%
<u>Is-gategori 10 mlynedd a throsodd</u>		
50 mlynedd a throsodd	20%	0%

Terfyn uchaf ar gyfer cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am fwy na blwyddyn			
2023/24	2024/25	2025/26	2026/27
£2.5m	£2.5m	£2.5m	£2.5m


Meincnod Dyledion

I bob pwrpas, y Meincnod Dyledion yw Benthyciadau Net Gofynnol yr awdurdod lleol ynghyd â lwfans ar gyfer hylifedd arian. Ar ei ffurf symlaf, fe'i cyfrifir drwy dynnu swm yr adnoddau buddsoddiadwy sydd ar gael ar y fantolen (cronfeydd wrth gefn, balansau llif arian) o swm y ddyled allanol sydd yn weddill, ac yna adio isafswm y buddsoddiadau sydd eu hangen i reoli'r llif arian parod o ddydd i ddydd.

Mae pedair elfen i'r Meincnod Dyledion: -

- Y ddyled bresennol sy'n weddill o ran benthyciadau: benthyciadau presennol yr Awdurdod fydd yn parhau yn weddill yn y blynyddoedd sydd i ddod.
- CFR (Gofyniad Cyllido Cyfalaf) y benthyciadau: fe'i cyfrifir yn unol â'r diffiniad o fenthyciadau CFR yn y Côd Darbodus ac fe'i defnyddir i wneud amcanestyniad at y dyfodol ar sail y benthycia darbodus cymeradwy a'r Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) a gynllunnir.
- Y Gofyniad o ran benthyciadau net: bydd hwn yn dangos dyled gros yr Awdurdod o ran benthyciadau, namyn y buddsoddiadau rheoli trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan wneud amcanestyniad at y dyfodol ar sail y benthycia darbodus cymeradwy, yr MRP a gynllunnir ac unrhyw lif arian mawr a ragwelir.
- Meincnod Dyledion (y gofyniad gros o ran benthyciadau): mae hyn y gyfystyr â'r gofyniad net o ran benthyciadau ac ychwanegu lwfans ar gyfer hylifedd tymor byr.

Tudalen 279



ATODLEN BUDDSODDI

Categori buddsoddi	Terfyn penodedig ar gyfer buddsoddiad unigol	Terfyn penodedig ar gyfer y categori buddsoddi	Meini prawf sgôr gredyd 'uchel'	Diogelwch / Sgôr Gredyd 'Uchel' Isaf (Fitch neu gyfatebol)	Ad-daladwy/ Adbrynadwy o fewn 12 mis?	Amgylchiadau defnyddio'r buddsoddiad	Cyfnod buddsoddi mwyaf
--------------------	--	--	---------------------------------	--	---------------------------------------	--------------------------------------	------------------------

BUDDSODDIADAU PENODEDIG (*Rhaid i'r holl fuddsoddiadau a restrir isod fod mewn sterling a rhaid nad ydynt yn gyfalaf benthyciad na chyfranddaliad*)

Swyddfa Rheoli Dyledion Llywodraeth y DU – Cyfleuster Adneuo'r Asiantaeth Rheoli Dyledion (DMADF)	Diderfyn	Diderfyn	Amherthnasol	Fe'u cefnogir gan Lywodraeth y DU	Ydyn	Mewnol	6 mis (Polisi DMO Presennol)
Banciau sydd wedi'u gwladoli'n llwyr neu'n rhannol gan Lywodraeth y DU (e.e. Northern Rock)	Gweler Atodiad 1	Gweler Atodiad 1	Lliw glas ym mandiau cyfnodol <i>Link</i>	Tymor byr F2	Ydyn	Mewnol	1 flwyddyn
Adneuron cyfnod penodol neu adneuron galw gyda Llywodraeth y DU neu gydag awdurdodau lleol (fel y'u diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003)	Diderfyn ar gyfer Llyw. y DU, 1m fesul ALI	Diderfyn	Amherthnasol	Diogelwch uchel, ond nid oes gan yr Awdurdodau Lleol sgôr gredyd.	Ydyn	Mewnol	Llywodraeth y DU : blwyddyn Awdurdodau Lleol: 90 diwrnod gydag isafswm o 180 o ddiwrnodau rhwng bob buddsoddiad
Adneuron cyfnod penodol neu adneuron galw gyda sefydliadau sy'n derbyn adneuron a chanddynt sgôr gredyd (banciau a chymdeithasau adeiladu)	Gweler Atodiad 1	Gweler Atodiad 1	Melyn, Porffor, Oren, Coch neu Wyrdd ym mandiau cyfnodol <i>Link *</i>	Tymor hir Tymor byr A-F1	Ydyn	Mewnol	1 flwyddyn ar gyfer Melyn, Porffor ac Oren 6 mis ar gyfer Coch 100 diwrnod ar gyfer Gwyrdd
Tystysgrifau Adneuron a roddir gan sefydliadau sy'n derbyn adneuron a chanddynt sgôr gredyd (banciau a chymdeithasau adeiladu) (<i>Angen trefniant gwarchodol cyn prynu</i>)	£2.5m	£2.5m	Melyn, Porffor, Oren neu Goch ym mandiau cyfnodol <i>Link *</i>	Tymor hir Tymor byr A-F1	Ydyn	Mewnol a rheolw(y)r cronfeydd allanol	1 flwyddyn
Giltiau Llywodraeth y DU (<i>Angen trefniant gwarchodol cyn prynu</i>)	£2.5m	£2.5m	Amherthnasol	Fe'u cefnogir gan Lywodraeth y DU	Ydyn	Mewnol a rheolw(y)r cronfeydd allanol	1 flwyddyn
Biliau'r Trysorlys (<i>Angen trefniant gwarchodol cyn prynu</i>)	£2.5m	£2.5m	Amherthnasol	Fe'u cefnogir gan Lywodraeth y DU	Ydyn	Mewnol a rheolw(y)r cronfeydd allanol	1 flwyddyn

Categori buddsoddi	Terfyn penodedig ar gyfer buddsoddiad unigol	Terfyn penodedig ar gyfer y categori buddsoddi	Ad-daladwy/ Adbrynadwy o fewn 12 mis?	Amgylchiadau defnyddio'r buddsoddiad	Cyfnod buddsoddi mwyaf		
					Ydyn	Mewnol, yn amodol ar y canllawiau a'r terfynau y cytunwyd arnynt	Ni chaiff y cyfnod buddsoddi ei bennu ar y cychwyn, ond bydd yn dibynnu ar y gofynion llif arian a hylifedd
Cronfeydd Hylifedd / Marchnad Arian y Llywodraeth – Nid oes gan y cronfeydd hyn ddyddiad aeddfedu a gellir cael mynediad atynt ar yr un diwrnod neu drwy roi diwrnod o rybudd fel rheol	£2m	£2m	AAA	Sgôr gredyd uchaf	Ydyn	Mewnol, yn amodol ar y canllawiau a'r terfynau y cytunwyd arnynt	Ni chaiff y cyfnod buddsoddi ei bennu ar y cychwyn, ond bydd yn dibynnu ar y gofynion llif arian a hylifedd

* Troednodyn – Cyn unrhyw droshaenu byrdymor

BUDDSODDIADAU AMHENODEDIG							
Cronfeydd Eiddo	£2.5m	£2.5m	Na	Ystyrir y cronfeydd yma'n wariant cyfalaf. Cymerir diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys cyngor oddi wrth ymgynghorwyr Trysorlys Allanol y Cyngor cyn ymgymryd â buddsoddiad o'r fath .	Mae'n bosib na phenderfynir ar y cyfnod buddsoddi ar y cychwyn fodd bynnag bydd yn ddibynnol ar lif arian a gofynion hylifedd		

Terfyn penodedig buddsoddiad unigol fesul Grŵp Bancio	Terfyn penodedig y categori buddsoddi	Meini prawf sgôr gredyd (Ar sail bandiau cyfnodol Link)	Rhestr sefydlog o wrthbartïon penodol (caiff ei diweddarau'n gyson yng ngoleuni newidiadau i sgoriau credyd ac o ran bodloni'r meini prawf sgoriau credyd)
£7m	£7m	GLAS neu GOCH	<p><u>Wedi'u gwladoli'n rhannol neu'n llwyr gan Lywodraeth y DU</u> Natwest Group plc gan gynnwys; National Westminster Bank plc (gan gynnwys cyfrif ar alw 'Mynediad yn syth/ gyda rhybudd') Royal Bank of Scotland Plc NatWest Markets Plc (NRFB)</p>
£6m	£25m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH	<p><u>Grŵp Bancio / Cymdeithas Adeiladu yn y DU(1):</u> Unrhyw un o'r banciau neu'r cymdeithasau adeiladu yng nghategori Grŵp Bancio y DU / Cymdeithas Adeiladu (2) os yw eu statws yn newid o WYRDD i GOCH neu OREN neu PORFFOR neu FELYN plws HSBC Bank Plc Bank of Scotland Plc (gan gynnwys cyfrifon ar alw 'Mynediad yn syth/ gyda rhybudd') Cymdeithas Adeiladu Nationwide Cymdeithas Adeiladu Coventry Cymdeithas Adeiladu Skipton Lloyds Banking Group, gan gynnwys; Lloyds Bank Plc Lloyds Bank Corporate Markets (NRFB) Bank of Scotland Plc (gan gynnwys cyfrifon ar alw 'Mynediad yn syth/ gyda rhybudd')</p>
£4m	£10m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH neu WYRDD	<p><u>Grŵp Bancio â rhiant-gwmni tramor:</u> Santander UK plc (Gan gynnwys cyfrifon galw mynediad uniongyrchol) Standard Chartered Bank Banc Rhyngwladol Goldman Sachs</p>
£3m	£6m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH neu WYRDD	<p><u>Grŵp Bancio / Cymdeithas Adeiladu yn y DU (2):</u> Unrhyw un o'r banciau neu'r cymdeithasau adeiladu yng nghategori Grŵp Bancio / Cymdeithas Adeiladu yn y DU (1) os bydd ei statws yn newid o GOCH i WYRDD, yn ogystal â Cymdeithas Adeiladu Yorkshire Cymdeithas Adeiladu Leeds</p>
£9m	£6m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH neu WYRDD	<p>Barclays Bank Plc * – Terfyn ar gyfer balansau dros nos ar gyfrifon banc corfforaethol</p>
	£3m		<p>Barclays Bank Plc * –Terfyn ar gyfer adneuon tymor penodol a mynediad uniongyrchol (gan gynnwys Cyfrifon Cadw Gwyrdd) Terfyn Cyfrifon Galw ar gyfer balansau cyfrifon galw.</p>

Tudalen 282

• Troednodyn – Barclays sy'n darparu gwasanaethau bancio i'r Cyngor ar hyn o bryd

Datganiad Polisi ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw 2024/251. Egwyddorion cyffredinol

- a) Mae Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn dilyn egwyddorion y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan adran 21(1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gan ddefnyddio un o'r opsiynau a amlinellir yn y canllawiau, yn ogystal â chyflwyno opsiwn arall a ategir gan yr egwyddor darpariaeth ddarbodus.
- b) Pennir y cyfnodau oes amcangyfrifedig yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig oni bai fod Llywodraeth Cymru'n mynnu neu'n penderfynu fel arall. I'r graddau nad yw'r gwariant yn creu ased a'i fod yn wariant y mae cyfnodau oes amcangyfrifedig y cyfeirir atynt yn y canllawiau'n berthnasol iddo, bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r cyfnodau hyn yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i bennu cyfnodau oes defnyddiol ac isafswm darpariaeth refeniw ddarbodus mewn amgylchiadau eithriadol pan na fyddai argymhellion y canllawiau'n briodol.
- c) Oherwydd nad oes modd cysylltu rhai mathau o wariant cyfalaf y Cyngor ag ased unigol, caiff oes ased ei hasesu ar y sail sy'n adlewyrchu cyfnod disgwylidig y budd sy'n deillio o'r gwariant yn y modd mwyaf rhesymol. Hefyd, pa fath bynnag o wariant sydd o dan sylw, bydd yn cael ei grwpio mewn modd sy'n adlewyrchu natur y brif elfen o wariant ac ni fydd ond yn cael ei wahanu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes ddefnyddiol economaidd wahanol iawn i'w gilydd.

2. Dulliau o gyfrifo isafswm darpariaeth refeniw (MRP)

- a) Bydd y gyfran fwyaf o MRP ar gyfer 2024/25 yn gysylltiedig â rhwymedigaethau dyledion mwy hanesyddol a oedd yn bodoli cyn 2008 neu ar ôl 2008 yn achos Benthycia â Chymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru (LIC). Darperir ar gyfer y rhwymedigaeth MRP ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor sy'n gysylltiedig â dyledion cyn 2008 a Benthycia â Chymorth ar ôl 2008 a ariennir gan LIC drwy'r Grant Cynnal Refeniw drwy ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau LIC 2018 a chymhwyso Dull Blwydd-dal gyda chyfradd llog o 4.20% (cyfartaledd cyfradd benthycy y benthyciadau sy'n weddill ar 01/04/21) dros gyfnod o 44 blynedd, gan gychwyn ar 01/04/2021.
- b) Gan fod Benthycia â Chymorth newydd pellach yn cael ei ddefnyddio yn y Rhaglen Gyfalaf, darperir hefyd ar gyfer rhwymedigaeth MRP pob cyfran newydd o Fenthycia â Chymorth drwy ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru ac chymhwyso'r Dull Blwydd-dal.
- c) Bydd cyfran sylweddol o'r MRP ar gyfer 2024/25 yn ymwneud â Benthycia Darbodus Digymorth ers 2008 a ddangosir o fewn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf. Darperir rhwymedigaeth MRP ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor sy'n ymwneud â Benthycia Digymorth wedi 2008, gan ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwyso'r Dull Blwydd-dal gyda chyfradd llog o 3.68% (cyfradd llog gyfartalog bwysedig y benthyciad dan sylw) dros gyfnod o 39 o flynyddoedd, gan ddechrau ar 01/04/2021.
- d) Wrth ddefnyddio mwy o'r Benthyciad Darbodus Digymorth yn Rhaglen Gyfalaf, bydd y rhwymedigaeth MRP a ddangosir yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn cael ei godi dros gyfnod sy'n gyfwerth ag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr asedau gan ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau Llywodraeth Cymru 2018 a chymhwyso'r Dull Blwydd-dal.
- e) Pan fyddwn yn ymgymryd â Benthycia Dros Dro yn lle derbyniadau cyfalaf a fydd yn dod i law yn y dyfodol (e.e. benthyciadau cyllid ad-daladwy LIC neu Fenthycia Darbodus Digymorth dros dro) byddwn yn parhau â'r egwyddor o beidio â chodi MRP e.e. pan fyddwn yn aros i dderbyniadau cyfalaf ddod i law ar ôl gwerthu asedau diangen.
- f) Pan fydd ased yn cael ei hadeiladu, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â chodi MRP hyd nes y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y mae'r gwariant cyfalaf yn cael ei wneud ac, yn achos ased newydd, pan fo'r ased yn dechrau cael ei defnyddio.

Tudalen 284

- g) Codir MRP ar drefniadau credyd PFI dros gyfnod sy'n cyfateb i amcangyfrif oes ddefnyddiol a gymhwysir i'r ased gan ddefnyddio Dull Blwydd-dal.
- h) Pan fydd MRP yn gysylltiedig â phroffil a bennwyd ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â threfniant credyd (e.e. Prydles Gyllidol) bydd y cyfrifiad MRP yn cydweddu â'r proffil ad-dalu pwrpasol perthnasol.
- i) Gall y Cyngor ddewis gwneud cyfraniadau MRP gwirfoddol yn ychwanegol at y cyfrifiadau MRP uchod ar unrhyw adeg. E.e. Gall y Cyngor ymdrin â chyfraniadau MRP gwirfoddol fel darpariaeth 'ymlaen llaw' (sy'n cael effaith debyg i ad-dalu dyled yn gynnar) a gall ailgyfrifo taliadau MRP yn y dyfodol yn unol â hynny.